# CBAC Sylfaen Lefel Mynediad/Lefel 1 Peirianneg

## Manyleb Ddrafft

I'w haddysgu o fis Medi 2027
Dyfarniad Cyntaf 2029

| |
|---|
| Manyleb DRAFFT yw hon. Felly, dylai canolfannau ddisgwyl rhai newidiadau yn y fersiwn derfynol a gyhoeddir ym mis Medi 2026. |

DRAFFT

# Gwybodaeth am y Cymhwyster

| | |
|---|---|
| Teitl y cymhwyster | CBAC Sylfaen Lefel Mynediad/Lefel 1 Peirianneg |
| Amcanion y cymhwyster | Cyflwyno dysgwyr i sectorau galwedigaethol trwy brofiadau dysgu hygyrch ac ymarferol sy'n datblygu sgiliau sylfaenol, yn cefnogi datblygiad personol, ac yn galluogi symud ymlaen i addysg a hyfforddiant pellach. |
| Cod Cymhwyster CBAC | i'w gadarnhau |
| Rhif QiW | i'w gadarnhau |
| Grwpiau oedran cymeradwy | 14–16, 16–19, 19+ |
| Addysgu am y tro cyntaf | Medi 2027 |
| Ardystio am y tro cyntaf | Haf 2029 |

| Fersiwn | Disgrifiad | Dyddiad |
|---|---|---|
| 1 | | |
| Gall ein manylebau newid dros amser. Bydd CBAC yn rhoi gwybod i ganolfannau am unrhyw ddiwygiadau a bydd y fersiwn diweddaraf o'r fanyleb ar y wefan bob amser. | | |

DRAFT

Mae'r fanyleb hon yn bodloni gofynion y dogfennau rheoleiddio canlynol a gyhoeddwyd gan Cymwysterau Cymru:

- Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith Gwneud i Gymru sy'n nodi'r gofynion ar gyfer unrhyw gymhwyster Cymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith newydd a gymeradwywyd i'w addysgu gyntaf o fis Medi 2027 a thu hwnt.
- Amodau Cydnabod Safonol sy'n cynnwys y rheolau y mae'n rhaid i bob corff dyfarnu a'u cymwysterau eu bodloni wrth gynnig cymwysterau i ddysgwyr yng Nghymru.

**Hawlfraint**
© WJEC CBAC Limited 2026.

# Grymuso dysgwyr, cefnogi athrawon

Fel corff dyfarnu mwyaf Cymru, mae gennym fwy na 75 mlynedd o brofiad yn cyflwyno cymwysterau o safon y gellir ymddiried ynddynt ac yn cefnogi dysgwyr, addysgwyr, a chyflogwyr ledled Cymru.

Darparwn amrywiaeth eang o gymwysterau dwyieithog sy'n hygyrch, yn ennyn diddordeb, ac wedi'u bwriadu i fodloni anghenion dysgwyr heddiw.

I ategu ein cymwysterau mae gennym dimau pynciol arbenigol, adnoddau o safon uchel, a chefnogaeth arbenigol, ymatebol. Y cydweithio agos ag ysgolion, colegau, consortia rhanbarthol, arbenigwyr sector a Cymwysterau Cymru sy'n llywio ac yn llunio ein gwaith.

Ni yw'r unig gorff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau ym mhob cyfres o'r hyn sydd ar gael fel Cymwysterau Cenedlaethol 14-16. Rydym yn falch iawn felly o fod â rôl allweddol yn cefnogi dyhead Llywodraeth Cymru i wneud addysg yng Nghymru yn rhywbeth y gall y genedl fod yn falch ohono. Mae'n ymrwymiad gennym i helpu pob dysgwr i gyflawni ei botensial ac i symud ymlaen yn hyderus.

# Sylfaen gref i lwyddo yn y dyfodol

Lluniwyd Cymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith i ysbrydoli ac i gefnogi dysgwyr, gan gynnig rhaglen dros ddwy flynedd sy'n hygyrch, sy'n ennyn diddordeb, ac wedi'i gwreiddio mewn dysgu yn y byd go iawn. Gyda phwyslais cryf ar weithgareddau a phrofiad ymarferol, mae'r cymwysterau hyn yn helpu dysgwyr i feithrin hyder, datblygu sgiliau hanfodol, a mwynhau llwyddiant ystyrlon.

Un o nodweddion allweddol ein Cymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith yw eu strwythur unedol. Dyma sy'n caniatáu i'r dysgwyr gwblhau rhai asesiadau ym Mlwyddyn 10 ac asesiadau eraill ym Mlwyddyn 11. Gyda'r dull cam wrth gam hwn, mae'n cynnig cyflymder dysgu hylaw, mae llai o bwysau asesu, ac mae'n cefnogi cynnydd ystyrlon gan bwyll.

Mae ein dull hyblyg o asesu yn grymuso athrawon i greu gweithgareddau asesu ystyrlon, sy'n canolbwyntio ar y dysgwr wrth sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn cael cyfleoedd teg a phriodol i ddangos eu cyflawniadau. Mae'r cyfuniad o feini prawf asesu clir a dyluniad tasgau hyblyg yn hyrwyddo profiadau dysgu pwrpasol sy'n cefnogi cynnydd, yn dathlu cryfderau unigol, ac yn adlewyrchu'r gwahanol ffyrdd y mae dysgwyr yn datblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau.

Mae ein dull graddio cydadferol yn cydnabod y gall dysgwyr berfformio'n wahanol ar draws y cymhwyster. Mae ein dull gweithredu yn galluogi perfformiad cryfach mewn un maes i wrthbwyso perfformiad gwannach mewn un arall, gan gyfrannu at brofiad asesu tecach a mwy cefnogol.

Gyda chynnwys sy'n berthnasol, yn ysgogol ac wedi'i deilwra i anghenion dysgwyr, mae ein Cymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer astudio ôl-16.

P'un a yw dysgwyr yn parhau i astudio'r pwnc ai peidio, byddant yn ennill gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau gwerthfawr, gan deimlo eu bod wedi cyflawni mewn ffordd sy'n eu paratoi ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith.

© WJEC CBAC Ltd 2026.

DRAFT

## Cynnwys


1.1. Pwrpas a nodau ........ 6
1.2. Cwricwlwm i Gymru ........ 6
1.3. Dysgu blaenorol a dilyniant ........ 7
1.4. Oriau dysgu dan arweiniad a Chyfanswm Amser Cymhwyso ........ 7
1.5. Y defnydd o iaith ........ 8
1.6. Cydraddoldeb a mynediad teg ........ 8
2.1. Fformat yr unedau ........ 9
2.2. Bonion deilliannau dysgu ........ 10
2.3. Cynnwys ........ 10
2.4 Tasgau asesu ........ 10
Uned 1 Cyflwyniad i Beirianneg ........ 11
Uned 2 Cynhyrchu Cynnyrch ........ 28
3.1. Tasgau asesu ........ 47
3.2. Hyd yr asesiad ........ 47
3.3. Gofynion tystiolaeth ........ 48
3.4. Cefnogaeth ac arweiniad ........ 49
3.5. Goruchwylio a dilysu ........ 49
3.6. Marcio (dyfarniadau asesu) ........ 49
3.7. Ailgyflwyno tystiolaeth cyn cymedroli ........ 50
3.8. Camymddwyn ........ 51
4.1. Cofrestru ar gyfer unedau ........ 52
4.2. Cofrestru ar gyfer y cymhwyster ........ 52
4.3. Graddio ........ 53
4.4. Ailsefyll asesiadau ar ôl cymedroli allanol ........ 54
4.5. Ailwneud y cymhwyster ........ 54
Atodiad A: Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru ........ 55


DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# Crynodeb o'r asesu

| Uned 1: Cyflwyniad i Beirianneg<br>Asesiad di-arholiad wedi'i farcio gan y Ganolfan |
| --- |
| Mae ganddo bedwar deilliant dysgu ac mae'n canolbwyntio ar ddysgu am beth yw'r sector peirianneg, y rolau swyddi allweddol, yr offer llaw, cyfarpar a phrosesau allweddol sy'n cael eu defnyddio a sut i weithio'n ddiogel.<br>Portffolio o dystiolaeth – uchafswm amser asesu o 9 awr.<br>Wedi'i asesu yn y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC. |
| Uned 2: Cynhyrchu Cynnyrch<br>Asesiad di-arholiad wedi'i farcio gan y Ganolfan |
| Mae ganddo bum deilliant dysgu ac mae'n canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau peirianegol ymarferol ac yn cwmpasu'r broses gyfan o ymgymryd â thasgau ymarferol.<br>Portffolio o dystiolaeth – uchafswm amser asesu o 21 awr.<br>Wedi'i asesu yn y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC. |

Cymhwyster unedol yw hwn.

Mae Uned 1 yn uned ragarweiniol y dylid ei haddysgu gyntaf.

Bydd Uned 1 ar gael o haf 2028, a bydd Uned 2 ar gael yn haf 2029.

Caiff y cymhwyster ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn 2029.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# 1. Cyflwyniad

## 1.1. Pwrpas a nodau

Mae Cymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith CBAC wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion dysgwyr rhwng 14 ac 16 oed, gan ddarparu profiadau dysgu perthnasol ac ystyrlon sy'n adlewyrchu eu cam datblygiad. Mae'r cymwysterau wedi'u gwreiddio'n gadarn yng nghyd-destun Cymru ac economi Cymru, gan sicrhau bod dysgwyr yn ymgysylltu â chynnwys sy'n ddilys yn lleol ac yn arwyddocaol yn genedlaethol.

Mae Cymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith yn cynnig cynnwys ac asesu hygyrch, sy'n ennyn diddordeb i gefnogi datblygu sgiliau ymarferol, gwybodaeth a dealltwriaeth. Drwy gyfateb â'r Cwricwlwm i Gymru, mae'r cymwysterau hyn yn cyfrannu at wireddu ei bedwar diben a'i egwyddorion cynnydd, gan helpu dysgwyr i ddod yn uchelgeisiol, yn alluog ac yn barod i ddysgu drwy gydol eu hoes.

Yn ogystal, mae Cymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu ymwybyddiaeth o gyfleoedd cyflogaeth a llwybrau i astudiaethau ôl-16, gan gynnwys cyrsiau galwedigaethol sy'n arwain at gymhwysedd galwedigaethol. Mae hyn yn sicrhau bod dysgwyr wedi'u paratoi'n dda ar gyfer eu camau nesaf mewn addysg neu hyfforddiant.

Nod y Cymhwyster Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith mewn Peirianneg yw cefnogi dysgwyr i wneud y canlynol:

- datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth hanfodol o Beirianneg, ei chylchred oes a natur benodol Peirianneg yng Nghymru
- deall y sector Peirianneg sy'n cwmpasu gwahanol rolau masnachu a swyddi proffesiynol
- datblygu sgiliau ymarferol dysgwyr mewn perthynas â thasgau sy'n briodol i'w hoedran yn ddiogel ac yn effeithiol
- meithrin sgiliau trosglwyddadwy megis cyfathrebu, cynllunio ac adolygu
- symud ymlaen i gymhwyster TAAU Peirianneg neu gyrsiau Lefel 1 i 3 eraill fel y bo'n briodol.

## 1.2. Cwricwlwm i Gymru

Mae fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yn sail i'r Cymhwyster Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith Peirianneg hwn. Cafodd ei lunio er mwyn sicrhau y gall dysgwyr barhau i wneud cynnydd tuag at y pedwar diben gan astudio ar gyfer y cymhwyster hwn ar yr un pryd. Yn ganolog i'r dyluniad hwn y mae'r egwyddorion cynnydd[1], ynghyd â'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig[2] ym Maes Dysgu a Phrofiadau Gwyddoniaeth a Thechnoleg.

Wrth ddatblygu'r cymhwyster hwn, ystyriwyd lle byddai cyfleoedd i ymgorffori'r themâu trawsgwricwlaidd a chyfleoedd yn ogystal i feithrin sgiliau cyfannol a sgiliau trawsgwricwlaidd. Mae mapio syml i'w weld yn Atodiad A, a bydd y Canllawiau Addysgu yn cynnwys gwybodaeth i gefnogi athrawon.

Ystyriwyd hefyd lle gall y cymhwyster greu cyfleoedd i integreiddio'r profiadau dysgu a nodwyd yn Adran 2.3; Bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran integreiddio'r profiadau dysgu hyn wrth gyflwyno'r cymhwyster.

[1] Cwricwlwm i Gymru - Hwb
[2] Cwricwlwm i Gymru - Hwb

© WJEC CBAC Ltd 2026.

Mae'r Cymhwyster Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith Peirianneg yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru drwy:

- gefnogi datganiadau o'r hyn sy'n bwysig Gwyddoniaeth a Thechnoleg, gan roi cyfle i ddysgwyr wneud y canlynol:
  - meithrin dealltwriaeth o rai o'r cysyniadau sy'n sail i wyddoniaeth a thechnoleg, a'u cymhwysiad mewn cyd-destunau lleol, cenedlaethol a byd-eang
  - deall a gwerthfawrogi sut a pham mae Peirianneg yn eu hardal leol ac mewn mannau eraill yng Nghymru wedi'i chynllunio, ei hadeiladu ac yn gallu newid
  - datblygu rhywfaint o sgiliau meddylfryd dylunio a gwybodaeth dechnegol i helpu i fodloni anghenion a dymuniadau cymdeithas
- cefnogi egwyddorion cynnydd Gwyddoniaeth a Thechnoleg drwy annog dysgwyr i wneud y canlynol:
  - datrys problemau a deall y gall dylunio fod yn iterus
  - datblygu gwydnwch a mwy o annibyniaeth
  - cynyddu ehangder a dyfnder eu gwybodaeth a chysyniadau sylfaenol
  - mireinio eu defnydd o sgiliau trwy archwilio ac adolygu
  - dangos gallu cynyddol i drosglwyddo sgiliau a gwybodaeth bresennol i gyd-destunau newydd, a chynyddol anghyfarwydd.

## 1.3. Dysgu blaenorol a dilyniant

Er nad oes gofyniad ffurfiol am ddysgu blaenorol, mae'r cymhwyster hwn wedi'i gynllunio'n bennaf i ddysgwyr rhwng 14 ac 16 oed, sy'n gweithio ar lefel mynediad Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC). Mae'n adeiladu ar sgiliau a dealltwriaeth sylfaenol a ddatblygwyd trwy brofiadau dysgu cynharach, fel arfer rhwng 3 ac 14 oed.

Mae'r cymhwyster yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu gwybodaeth hanfodol, sgiliau ymarferol ac i fagu hyder, gan ddarparu sylfaen gadarn ar gyfer dysgu yn y dyfodol a bywyd pob dydd. Mae hefyd yn paratoi dysgwyr i symud ymlaen i astudiaethau pellach, hyfforddiant, neu gyflogaeth. Mae cynnwys Llwyddiant Lefel 1 yn cydnabod lefelau uwch o gyflawniad ac yn darparu llwybr clir i gymwysterau Lefel 1/2, gan gynnwys TAAU Peirianneg, ac yn cefnogi dilyniant parhaus a dyheadau dysgwyr.  Yn ogystal, mae'r cymhwyster yn cynnig cwrs astudio sy'n gydlynol, yn foddhaol ac yn werth chweil i'r dysgwyr hynny nad ydynt yn symud ymlaen i astudio ymhellach yn y pwnc hwn.

## 1.4. Oriau dysgu dan arweiniad a Chyfanswm Amser Cymhwyso

Lluniwyd Cymhwyster Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith Peirianneg i'w gyflwyno dros gyfnod o 120 o oriau dysgu dan arweiniad.  Cafodd y cymhwyster ei lunio'n bennaf fel rhaglen 2 flynedd i ddysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11. Mae gan ganolfannau hyblygrwydd o ran sut maen nhw'n strwythuro ac yn cyflwyno eu cyrsiau o fewn cyfanswm yr ODA ar gyfer y cymhwyster. Mae swm y cynnwys ym mhob uned yn rhoi syniad o ganran yr ODA y rhagwelir y bydd ei hangen ar gyfer pob uned.

| | **Oriau Dysgu dan Arweiniad (ODA)** |
|---|---|
| Uned 1 | 36 |
| Uned 2 | 84 |
| **Cyfanswm** | **120 awr** |

© WJEC CBAC Ltd 2026.

Y cyfanswm amser cymhwyso (CAC) yw cyfanswm yr amser, mewn oriau, y disgwylir i ddysgwr ei dreulio er mwyn cyflawni cymhwyster. Mae'n cynnwys yr ODA ac unrhyw amser ychwanegol i baratoi, astudio a chyflawni rhai gweithgareddau asesu ffurfiannol.

Gan fod Cymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith wedi'u cynllunio'n bennaf ar gyfer dysgwyr lefel mynediad cyn-16, bwriedir i'r holl ddysgu ac asesu o fewn y cymhwyster fod dan arweiniad. Yn unol â hynny, cyfanswm amser cymhwyso'r cymhwyster hwn yw 120 awr.

## 1.5. Y defnydd o iaith

Wrth i'n dealltwriaeth o amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant ddatblygu, mae'n rhaid i'n hiaith ddatblygu hefyd. Bydd y derminoleg yn cael ei diweddaru yn ôl yr angen i sicrhau ei bod yn adlewyrchu hunaniaethau unigol ac yn meithrin parch a chywirdeb. Bydd yr iaith a ddefnyddir mor benodol â phosibl. Mae'n hanfodol bod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd a bod modd addasu gan fod iaith gynhwysol yn hybu urddas a thegwch. Gan gydnabod y bydd iaith yn parhau i ddatblygu, byddwn yn parhau i fod yn agored i wneud diwygiadau pellach lle bo'n briodol, i sicrhau ei bod yn cynrychioli ac yn cefnogi pob unigolyn yn gywir. Byddwn yn rhoi gwybod i ganolfannau am unrhyw ddiwygiadau a bydd y fersiwn diweddaraf o'r fanyleb ar y wefan bob amser.

## 1.6. Cydraddoldeb a mynediad teg

Mae'r cymhwyster hwn wedi'i gynllunio i fod yn hygyrch i bob dysgwr, waeth beth fo'i rywedd, ethnigrwydd, crefydd, diwylliant, neu unrhyw nodwedd warchodedig arall fel y'i diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r nodweddion gwarchodedig hyn yn cynnwys oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol. Mae egwyddorion cynllunio cynhwysol wedi'u cymhwyso drwy'r cymhwyster, gan gynnwys defnyddio fformatau asesu amrywiol, iaith glir a diduedd, ac enghreifftiau amrywiol sy'n adlewyrchu ehangder ac amrywiaeth y sector Peirianneg. Mae pob ymdrech wedi'i wneud i osgoi, lle bo'n bosibl, nodweddion a allai greu rhwystrau i fynediad neu gyflawniad na ellir eu cyfiawnhau.

Mae trefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol ar gael i ddysgwyr cymwys er mwyn sicrhau y gallant gymryd rhan lawn mewn asesiadau a dangos eu gwybodaeth a'u sgiliau. Nid yw'r addasiadau hyn yn newid gofynion bwriadedig yr asesiad ond maent yn cefnogi mynediad teg. Mae canllawiau ar drefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol i'w gweld yn nogfen y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC) *Trefniadau Mynediad, Addasiadau Rhesymol*: *Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol*, sydd ar gael yn www.jcq.org.uk.

Mae'r cymhwyster hwn yn cadw at yr egwyddorion a amlinellir yng nghanllawiau'r CGC. O ganlyniad i ddylunio cynhwysol a darpariaeth ar gyfer addasiadau rhesymol, prin iawn fydd nifer y dysgwyr a fydd yn dod ar draws rhwystr llwyr rhag unrhyw ran o'r broses asesu.

© WJEC CBAC Ltd 2026.

DRAFT

# 2. Unedau

## 2.1. Fformat yr unedau

| | |
|---|---|
| **Oriau Dysgu dan Arweiniad (ODA)** | Mae'n nodi'r nifer amcangyfrifedig o oriau y bydd dysgwr yn ei dreulio dan oruchwyliaeth neu arweiniad uniongyrchol i gwblhau'r uned. Mae hyn yn cynnwys addysgu yn yr ystafell ddosbarth, gweithgareddau ymarferol, ac astudio dan oruchwyliaeth. |
| **Trosolwg o'r uned** | Mae'n darparu crynodeb cryno o bwrpas, cwmpas a pherthnasedd yr uned. Mae'n amlinellu'r themâu allweddol, y sgiliau a'r meysydd gwybodaeth a gwmpesir, a sut mae'r uned yn cefnogi dilyniant yn y maes galwedigaethol. |
| **Deilliannau Dysgu** | Mae'n rhestru'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth benodol y disgwylir i ddysgwyr eu dangos ar ôl cwblhau'r uned yn llwyddiannus. |
| **Crynodeb o'r asesu** | Mae'n crynhoi'r dull asesu ar gyfer yr uned.<br>Mae'r adran hon hefyd yn awgrymu faint o amser y dylai dysgwyr ei dreulio yn cwblhau asesiadau. |
| **Yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer yr asesu** | Mae'n cynnwys manylion y deunyddiau, y cyfarpar, y cyfleusterau a'r staffio y mae eu hangen i gynnal yr asesiad yn effeithiol. Mae hyn yn sicrhau cysondeb a thegwch wrth gyflwyno'r cymhwyster ar draws canolfannau. |
| **Cysylltiadau ag unedau a chymwysterau eraill CBAC** | Mae'n nodi cysylltiadau ag unedau neu gymwysterau eraill sy'n cael eu cynnig gan CBAC, gan gynnwys llwybrau dilyniant a/neu gyfleoedd ar gyfer cyflwyno integredig. |
| **Cynnwys** | Mae'n amlinellu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y mae angen eu haddysgu i ddysgwyr i fodloni'r meini prawf asesu. |
| **Meini prawf asesu** | Mae'n darparu meini prawf penodol, arsylladwy, a mesuradwy y mae'n rhaid i ddysgwyr eu bodloni i ddangos eu bod wedi cyflawni'r deilliant dysgu. Darperir pedwar band gwahanol o feini prawf asesu, sy'n adlewyrchu lefelau gwahanol o allu dysgwyr. |
| **Tasgau enghreifftiol** | Mae'n darparu amrywiaeth o dasgau addas ar gyfer pob lefel o feini prawf asesu. Nid yw'r tasgau hyn yn orfodol. Dylai athrawon sicrhau bod tasgau a gweithgareddau asesu yn addas ar gyfer anghenion a galluoedd pob grŵp o ddysgwyr. |
| **Cyfleoedd i integreiddio profiadau dysgu** | Mae'n tynnu sylw at brofiadau dysgu a allai gael eu cynhyrchu drwy gyflwyno'r uned. Mae mwy o wybodaeth wedi'i chynnwys yn y Canllawiau Addysgu.<br>Ni fydd asesiad uniongyrchol o'r profiadau. |

© WJEC CBAC Ltd 2026.

DRAFT

## 2.2. Bonion deilliannau dysgu

Yng Nghymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith CBAC, defnyddir bonion deilliannau dysgu i nodi dyfnder a math y dysgu a ddisgwylir.

Defnyddir 'Bydd dysgwyr yn gwybod' neu 'Bydd dysgwyr yn ymwybodol' pan ddisgwylir i ddysgwyr alw i gof ffeithiau syml neu adnabod gwybodaeth allweddol.

Defnyddir 'Bydd dysgwyr yn deall' pan fydd angen i ddysgwyr ddangos eu bod yn gallu gwneud synnwyr o gysyniadau sylfaenol a'u cymhwyso mewn sefyllfaoedd cyfarwydd, wedi'u cefnogi.

Defnyddir 'Bydd dysgwyr yn gallu' pan ddisgwylir i ddysgwyr gyflawni tasgau ymarferol syml, dilyn cyfarwyddiadau, neu ddangos technegau sylfaenol.

Mae'r bonion hyn yn sicrhau bod deilliannau'n hygyrch, yn gyraeddadwy, ac yn briodol i ddysgwyr sylfaen sy'n datblygu hyder mewn meysydd galwedigaethol.

## 2.3. Cynnwys

Darperir cynnwys ar gyfer pob deilliant dysgu, sy'n amlinellu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y mae angen eu haddysgu i ddysgwyr er mwyn iddyn nhw fodloni'r meini prawf asesu.

Rhaid cyflwyno'r holl gynnwys oni nodir fel arall:

- mae'r defnydd o'r ymadrodd 'gan gynnwys' yn golygu bod y cynnwys dan sylw yn orfodol ac y gallai gael ei asesu. Gall canolfannau hefyd ddewis ymgorffori cynnwys neu enghreifftiau ychwanegol y tu hwnt i'r rhai a restrir
- mae'r defnydd o'r geiriau 'er enghraifft', 'fel' neu 'megis' yn golygu mai arweiniad yn unig yw'r cynnwys dan sylw, a gellid defnyddio enghreifftiau eraill.

## 2.4 Tasgau asesu

Darperir tasgau asesu enghreifftiol ar ddiwedd pob uned ynghyd ag unrhyw ofynion adnoddau penodol. Mae'r tasgau hyn wedi'u cynllunio i gydbwyso hydrinedd, diddordeb dysgwyr, dibynadwyedd a dilysrwydd.

Gall canolfannau ddewis defnyddio'r tasgau hyn fel y maent wedi'u cyflwyno, eu haddasu neu ddatblygu dewisiadau amgen eu hunain. Rhaid i unrhyw dasgau a ddyfeisiwyd gan y ganolfan alluogi dysgwyr i fodloni'r holl feini prawf asesu cysylltiedig.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# Uned 1 Cyflwyniad i Beirianneg

| | |
|---|---|
| **Oriau Dysgu dan Arweiniad (ODA)** | 36 |
| **Trosolwg o'r uned** | Mae peirianneg ymhob man o'n cwmpas. Mae'n helpu i greu'r allbynnau rydyn ni'n eu defnyddio a'u gweld bob dydd, gan gynhyrchu atebion i ddatrys problemau yn ein bywydau, a all gael effaith gadarnhaol ar sut rydyn ni'n byw. Mae'r uned hon yn cyflwyno dysgwyr i bwysigrwydd peirianneg yn ein bywydau.<br><br>Mae'r sector peirianneg yng Nghymru yn fawr ac yn amrywiol, ac mae'r uned hon yn canolbwyntio ar ddatblygu dealltwriaeth o'r amrywiaeth eang o sectorau peirianneg a'r hyn y maen nhw'n ei greu neu yn ei wneud. O awyrofod i beirianneg sifil, bydd dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth bellach o gyfraniad peirianneg i'n bywydau. Mae'r uned hon hefyd yn cyflwyno dysgwyr i'r rolau ym maes peirianneg a'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â'r rolau hynny.<br><br>Mae peirianneg yn cwmpasu amrywiaeth eang o ddisgyblaethau, gan gynnwys dylunio, cynnal a chadw, sicrhau ansawdd a chynaliadwyedd, pob un ohonyn nhw'n cyfrannu at greu, gwella a chynnal a chadw'r cynhyrchion, y systemau a'r seilwaith sy'n cynnal bywyd bob dydd.<br><br>Mae'r uned hon yn cyflwyno dysgwyr i'r offer, offerynnau a'r prosesau a ddefnyddir mewn peirianneg, gan ddarparu dealltwriaeth sylfaenol o bwrpas pob un. Er mwyn cefnogi gweithio'n ddiogel, bydd dysgwyr hefyd yn cael eu cyflwyno i beryglon cyffredin mewn amgylcheddau peirianneg a sut y gallant ddiogelu eu hunain ac eraill.<br><br>Pwrpas yr uned hon yw archwilio:<br><br>• rôl y mae peirianneg yn ei chwarae yn ein bywydau<br>• rolau a chyfrifoldebau yn y sector peirianneg<br>• pwrpasau offer, cyfarpar a phrosesau<br>• arferion gweithio diogel mewn peirianneg. |
| **Deilliannau Dysgu** | Drwy gwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:<br><br>1.1 Gwybod am rôl peirianneg yn ein bywydau<br>1.2 Gwybod am rolau a chyfrifoldebau yn y sector peirianneg<br>1.3 Deall pwrpas offer, offerynnau a phrosesau sylfaenol a ddefnyddir mewn peirianneg<br>1.4 Deall arferion gweithio diogel mewn peirianneg. |

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| | |
|---|---|
| **Crynodeb o'r asesu** | Bydd asesu ar gyfer yr uned hon yn cael ei gynnal trwy weithgareddau a osodir gan yr athro/athrawes sy'n galluogi dysgwyr i ddangos yr hyn y maen nhw wedi'i ddysgu mewn ffyrdd ymarferol a hygyrch.<br><br>Er mwyn cyflawni pob deilliant dysgu, rhaid i ddysgwyr ddarparu tystiolaeth sy'n bodloni'r meini prawf asesu. Mae tasgau enghreifftiol wedi'u cynnwys ar ôl yr uned.<br><br>Rhaid i ganolfannau sicrhau nad yw gweithgareddau asesu yn hirach na'r uchafswm hyd o 9 awr. I'r rhan fwyaf o ddysgwyr, bydd yr asesu fel arfer o fewn yr amrediad dangosol o 7–9 awr, er y gellir defnyddio cyfnodau byrrach lle bo hynny'n briodol, yn enwedig ar gyfer dysgwyr Lefel Mynediad. Ni ddylid trin yr amrediad fel lleiafswm, a rhaid i ganolfannau osgoi gorasesu.<br><br>Rhaid i ganolfannau gofnodi'r amser bras y mae pob dysgwr yn ei dreulio ar weithgareddau asesu at ddibenion cymedroli a sicrhau ansawdd. |
| **Yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer yr asesiad** | Nid oes anghenion penodol ar gyfer yr asesiad. |
| **Cysylltiadau ag unedau a chymwysterau eraill CBAC** | Efallai y bydd gan ddysgwyr sy'n cwblhau'r uned hon ddiddordeb hefyd yn y canlynol:<br><br>Sgiliau Bywyd: Gwyddoniaeth a Thechnoleg mewn Bywyd Bob Dydd<br>Sgiliau Bywyd: Sgiliau yn yr Amgylchedd Naturiol<br>Sgiliau Bywyd: Cynaliadwyedd ar Waith<br>Sgiliau Gwaith: Creadigrwydd Gyrfa<br>Sgiliau Gwaith: Archwilio Llwybrau Gyrfa<br>Sgiliau Gwaith: Swyddi ar gyfer y Dyfodol<br>Sgiliau Gwaith: Datblygu Economaidd Cynaliadwy<br>Sgiliau Gwaith: Profiad Gwaith<br>Sgiliau Gwaith: Gweithio yng Nghymru |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## Cynnwys

| **Deilliant dysgu 1.1**<br><br>**Bydd y dysgwr yn gwybod am rôl peirianneg yn ein bywydau** | **Cynnwys a addysgir** |
|---|---|
| 1.1.1<br>Pwrpas peirianneg | Mae peirianneg yn helpu i ddatrys problemau yn ein bywydau:<br><br>• i gefnogi byw'n gyffyrddus<br>• i gynhyrchu egni<br>• i gefnogi diogelwch<br>• i wella effeithlonrwydd a chynaliadwyedd. |
| 1.1.2<br>Defnydd peirianneg | Mae peirianneg yn helpu i greu'r allbynnau rydyn ni'n eu defnyddio a'u gweld bob dydd:<br><br>• trafnidiaeth:<br>    • awyrennau<br>    • beiciau<br>    • bysiau<br>    • ceir<br>    • beiciau modur<br>    • trenau<br>    • sgwteri<br>• technoleg:<br>    • Bluetooth<br>    • cyfrifiaduron<br>    • y rhyngrwyd<br>    • ffonau clyfar<br>    • wi-fi<br>• systemau egni:<br>    • i gynhyrchu trydan<br>    • i gael a defnyddio olew a nwy<br>    • i wresogi ac oeri adeiladau<br>    • i gynhyrchu egni adnewyddadwy. |
| 1.1.3<br>Effaith peirianneg | Mae peirianneg yn ein helpu mewn sawl ffordd:<br><br>• gwella ansawdd bywyd<br>• arbed amser ac egni<br>• lleihau effaith amgylcheddol<br>• gwneud systemau'n fwy diogel ac yn fwy dibynadwy<br>• cefnogi twf economaidd a swyddi<br>• ymateb i heriau byd-eang. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| **Deilliant dysgu 1.2**<br><br>**Bydd y dysgwr yn gwybod am rolau a chyfrifoldebau yn y sector peirianneg** | **Cynnwys a addysgir** |
|---|---|
| 1.2.1<br>Rolau a chyfrifoldebau cyffredin yn y sector peirianneg | Rolau cyffredin:<br><br>• peiriannydd dylunio<br>• peiriannydd trydanol<br>• peiriannydd electronig<br>• peiriannydd cynnal a chadw<br>• peiriannydd mecanyddol.<br><br>Cyfrifoldebau cyffredin y rolau hyn. |
| 1.2.2<br>Lefelau'r rolau yn y sector peirianneg | Lefelau'r rolau ym maes peirianneg a'u gwahaniaethau:<br><br>• gweithredydd – lled-fedrus<br>• technegydd – medrus<br>• uwch dechnegydd<br>• peiriannydd.<br><br>Sut y gall peirianwyr symud ymlaen trwy'r gwahanol lefelau hyn a beth sydd ei angen i gyrraedd y lefel nesaf. |
| 1.2.3<br>Y sectorau peirianneg sy'n gweithredu yng Nghymru | Y sectorau peirianneg hyn a'r hyn maen nhw'n ei greu neu yn ei wneud:<br><br>• awyrofod<br>• modurol<br>• peirianneg sifil<br>• amgylcheddol<br>• bwyd a diod<br>• gweithgynhyrchu mecanyddol<br>• morol ac alltraeth<br>• olew a nwy<br>• peirianneg y gofod. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

<table>
<tr><th>Deilliant dysgu 1.3<br><br>Bydd y dysgwr yn deall pwrpas offer, offerynnau a phrosesau sylfaenol a ddefnyddir mewn peirianneg</th><th>Cynnwys a addysgir</th></tr>
<tr><td>1.3.1<br>Offer ac offerynnau cyffredinol</td><td>Pwrpas:
<ul>
<li>offer peirianegol cyffredinol:
<ul><li>pwnsh canoli</li><li>sgwâr peiriannydd</li><li>ffeiliau</li><li>haclif</li><li>morthwyl</li><li>sgriwdreifars</li><li>sgrifell</li><li>sbaneri</li><li>tâp mesur</li><li>tap a dei</li></ul></li>
<li>offer mesur:
<ul><li>caliper digidol</li><li>micromedr</li><li>riwl ddur</li><li>caliper fernier.</li></ul></li>
</ul>
Yr offer a'r offerynnau peirianneg mwyaf addas ar gyfer tasgau peirianegol.</td></tr>
<tr><td>1.3.2<br>Prosesau peirianneg</td><td>Pwrpas prosesau peirianegol:
<ul>
<li>prosesau tynnu ac uno deunyddiau:
<ul><li>tynnu deunyddiau:
<ul><li>torri</li><li>drilio</li><li>ffeilio</li><li>haclifio</li><li>turnio â llaw</li></ul></li></ul></li>
<li>prosesau uno:
<ul><li>ffasnyddion:
<ul><li>bolltau, nytiau a wasieri</li><li>rhybedion pop</li><li>sgriwiau hunandapio</li><li>pinnau hollt</li></ul></li>
<li>uno:
<ul><li>adlynion peirianegol</li><li>weldio nwy anadweithiol metel (MIG)</li></ul></li></ul></li>
<li>gorffeniadau arwyneb ar gyfer metelau:
<ul><li>glasu</li><li>paent</li><li>araenau plastig</li><li>gorffeniad wedi'i llathru.</li></ul></li>
</ul>
Y broses beirianegol fwyaf addas ar gyfer tasgau peirianegol.</td></tr>
</table>

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| **Deilliant dysgu 1.4**<br><br>**Bydd y dysgwr yn deall arferion gweithio diogel mewn peirianneg** | **Cynnwys a addysgir** |
|---|---|
| 1.4.1<br>Peryglon peirianneg cyffredin yn y gweithle | Peryglon cyffredin ac enghreifftiau o beryglon:<br><br>• peryglon cemegol<br>• peryglon trydanol<br>• peryglon tân<br>• peryglon mecanyddol<br>• peryglon ffisegol. |
| 1.4.2<br>Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) a ddefnyddir mewn peirianneg | Gwahanol fathau o Gyfarpar Diogelu Personol (PPE):<br><br>• cyfarpar amddiffyn y llygaid a'r wyneb<br>• cyfarpar amddiffyn y traed<br>• cyfarpar amddiffyn y dwylo<br>• cyfarpar amddiffyn y clyw<br>• cyfarpar diogelu anadlol (RPE).<br><br>Y Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) mwyaf addas ar gyfer gwahanol fathau o beryglon. |
| 1.4.3<br>Arwyddion iechyd a diogelwch, pwrpas a chamau gweithredu mewn peirianneg | Pwrpas a chamau gweithredu angenrheidiol ar gyfer yr arwyddion iechyd a diogelwch canlynol:<br><br>• gorfodol:<br>    • gwisgo cyfarpar amddiffyn clustiau<br>    • gwisgo menig<br>    • gwisgo esgidiau diogelwch<br>    • gwisgo goglau diogelwch<br>• peryglon:<br>    • sylwedd cyrydol<br>    • risg ffrwydrol<br>    • deunydd fflamadwy<br>    • deunydd gwenwynig yn y fanyleb<br>• rhybudd:<br>    • tryciau fforch godi yn gweithredu<br>    • foltedd uchel<br>    • arwyneb poeth<br>    • arwyneb llithrig.<br><br>Pwysigrwydd yr arwyddion iechyd a diogelwch hyn mewn peirianneg. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| | |
|---|---|
| 1.4.4<br>Arferion a rheoliadau gweithio diogel mewn peirianneg | Deddfwriaeth allweddol a'i phwrpas:<br>• Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH)<br>• Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith (HASAWA) 1974<br>• Gweithrediadau Codi a Chario (MHO)<br>• canllawiau i atal llithro, baglu a chwympo.<br><br>Dyletswyddau allweddol cyflogwr:<br>• dyletswydd y cyflogwr i sicrhau diogelwch<br>• sicrhau bod rheoliadau'n cael eu dilyn er mwyn gorfodi diogelwch (er enghraifft, COSHH, MHO).<br>• defnyddio asesiadau risg.<br><br>Arferion gweithio diogel:<br>• rhaid rheoli peryglon yn y gweithle gan ddefnyddio asesiadau risg<br>• pam a phryd y dylid defnyddio Cyfarpar Diogelu Personol (PPE)<br>• arddangos arwyddion diogelwch ac ymwybyddiaeth a chydymffurfiaeth staff. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| Deilliant dysgu | Meini Prawf Asesu – gall y dysgwr: | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Mynediad 1 gyda lefel uchel o gefnogaeth: (1 pwynt)** | **Mynediad 2 gyda lefel ganolig o gefnogaeth: (2 bwynt)** | **Mynediad 3 gyda lefel isel o gefnogaeth: (3 bwynt)** | **Lefel 1 yn annibynnol: (4 bwynt)** | **Pwyntiau a roddwyd** |
| DD1.1<br>Bydd y dysgwr yn gwybod am rôl peirianneg yn ein bywydau | 1.1.1<br>Enwi rhai o bwrpasau peirianneg.<br><br>Paru rhai enghreifftiau â phwrpasau peirianneg. | 1.1.1<br>Rhoi gwahanol bwrpasau peirianneg.<br><br>Rhestru rhai enghreifftiau o wahanol bwrpasau peirianneg. | 1.1.1<br>Nodi gwahanol bwrpasau peirianneg.<br><br>Nodi enghreifftiau gwahanol o bwrpasau peirianneg. | 1.1.1<br>Amlinellu gwahanol bwrpasau peirianneg.<br><br>Amlinellu enghreifftiau o wahanol bwrpasau peirianneg. | /4 |
| | 1.1.2<br>Enwi rhai mathau o allbynnau y mae peirianneg yn helpu i'w creu.<br><br>Paru rhai enghreifftiau ag allbynnau y mae peirianneg yn helpu i'w creu. | 1.1.2<br>Rhoi mathau gwahanol o allbynnau y mae peirianneg yn helpu i'w creu.<br><br>Rhestru enghreifftiau gwahanol o allbynnau y mae peirianneg yn helpu i'w creu. | 1.1.2<br>Nodi'r mathau gwahanol o allbynnau y mae peirianneg yn helpu i'w creu.<br><br>Nodi enghreifftiau gwahanol o allbynnau y mae peirianneg yn helpu i'w creu. | 1.1.2<br>Amlinellu'r mathau gwahanol o allbynnau y mae peirianneg yn helpu i'w creu.<br><br>Amlinellu enghreifftiau gwahanol o allbynnau y mae peirianneg yn helpu i'w creu. | /4 |
| | 1.1.3<br>Enwi rhai ffyrdd y mae peirianneg yn effeithio ar fywydau.<br><br>Paru rhai enghreifftiau o sut mae peirianneg yn effeithio ar fywydau. | 1.1.3<br>Rhoi rhai ffyrdd gwahanol y mae peirianneg yn effeithio ar fywydau.<br><br>Rhestru rhai enghreifftiau gwahanol o sut mae peirianneg yn effeithio ar fywydau. | 1.1.3<br>Nodi ffyrdd gwahanol y mae peirianneg yn effeithio ar fywydau.<br><br>Nodi enghreifftiau gwahanol o sut mae peirianneg yn effeithio ar fywydau. | 1.1.3<br>Amlinellu'r mathau gwahanol o effeithiau peirianneg.<br><br>Amlinellu enghreifftiau o'r ffyrdd gwahanol y mae peirianneg yn effeithio ar fywydau. | /4 |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| Deilliant dysgu | Meini Prawf Asesu – gall y dysgwr: | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Mynediad 1 gyda lefel uchel o gefnogaeth: (1 pwynt)** | **Mynediad 2 gyda lefel ganolig o gefnogaeth: (2 bwynt)** | **Mynediad 3 gyda lefel isel o gefnogaeth: (3 bwynt)** | **Lefel 1 yn annibynnol: (4 bwynt)** | **Pwyntiau a roddwyd** |
| DD1.2<br>Bydd y dysgwr yn gwybod am rolau a chyfrifoldebau yn y sector peirianneg | 1.2.1<br>Paru rhai rolau cyffredin mewn peirianneg â'u cyfrifoldebau. | 1.2.1<br>Rhoi rhai rolau cyffredin mewn peirianneg a'u cyfrifoldebau. | 1.2.1<br>Nodi'r rolau cyffredin mewn peirianneg a'u cyfrifoldebau, gan ddefnyddio rhai enghreifftiau. | 1.2.1<br>Amlinellu'r rolau cyffredin mewn peirianneg a'u cyfrifoldebau gwahanol gan ddefnyddio enghreifftiau. | /4 |
| | 1.2.2<br>Rhoi lefelau'r rolau ym maes peirianneg mewn trefn.<br><br>Enwi o leiaf un ffordd y gall peiriannydd symud ymlaen i lefel newydd mewn peirianneg. | 1.2.2<br>Rhoi lefelau'r rolau ym maes peirianneg mewn trefn.<br><br>Rhoi rhai ffyrdd y gall peiriannydd symud ymlaen i lefel newydd mewn peirianneg. | 1.2.2<br>Nodi lefelau'r rolau ym maes peirianneg mewn trefn a pham eu bod yn wahanol.<br><br>Nodi gwahanol ffyrdd y gall peiriannydd symud ymlaen trwy'r lefelau hyn gan ddefnyddio rhai enghreifftiau. | 1.2.2<br>Amlinellu'r gwahanol lefelau o rolau mewn peirianneg ac esbonio pwysigrwydd y lefelau hyn gan ddefnyddio enghreifftiau.<br><br>Amlinellu'r gwahanol ffyrdd y gall peiriannydd symud ymlaen trwy'r lefelau hyn gan ddefnyddio enghreifftiau. | /4 |
| | 1.2.3<br>Paru rhai sectorau peirianneg â'r hyn maen nhw'n ei greu neu'n ei wneud. | 1.2.3<br>Labelu'r sectorau peirianneg gwahanol a'r hyn maen nhw'n ei greu neu'n ei wneud. | 1.2.3<br>Nodi'r sectorau peirianneg gwahanol a'r hyn maen nhw'n ei greu neu'n ei wneud, gan ddefnyddio rhai enghreifftiau. | 1.2.3<br>Amlinellu'r sectorau peirianneg gwahanol a'r hyn maen nhw'n ei greu a'i wneud gan ddefnyddio enghreifftiau. | /4 |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| Deilliant dysgu | Meini Prawf Asesu – gall y dysgwr: | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Mynediad 1 gyda lefel uchel o gefnogaeth: (1 pwynt)** | **Mynediad 2 gyda lefel ganolig o gefnogaeth: (2 bwynt)** | **Mynediad 3 gyda lefel isel o gefnogaeth: (3 phwynt)** | **Lefel 1 yn annibynnol: (4 pwynt)** | **Pwyntiau a roddwyd** |
| DD1.3<br>Bydd y dysgwr yn deall pwrpas a defnydd offer ac offerynnau peirianneg cyffredinol | 1.3.1<br>Dewis rhai offer ac offerynnau peirianneg cyffredinol a dewis eu pwrpasau cywir.<br><br>Dewis offer ac offerynnau peirianneg addas ar gyfer tasg benodol. | 1.3.1<br>Rhoi crynodeb o'r rhan fwyaf o'r offer ac offerynnau peirianneg cyffredinol a'u pwrpasau.<br><br>Dewis offer ac offerynnau peirianneg addas ar gyfer tasgau gwahanol. | 1.3.1<br>Amlinellu'r offer a'r offerynnau peirianneg cyffredinol a'u pwrpasau ac awgrymu rhai enghreifftiau o dasgau y gellid eu defnyddio ar eu cyfer.<br><br>Awgrymu offer ac offerynnau peirianneg addas ar gyfer tasgau gwahanol a pham eu bod yn addas. | 1.3.1<br>Disgrifio'r offer a'r offerynnau peirianneg cyffredinol a'u pwrpasau, gan ddefnyddio enghreifftiau o ba dasgau y gellid eu defnyddio ar eu cyfer.<br><br>Esbonio pam mae gwahanol offer ac offerynnau yn fwyaf addas ar gyfer tasgau gwahanol. | /4 |
| | 1.3.2<br>Dewis rhai prosesau peirianegol a dewis eu pwrpasau.<br><br>Dewis prosesau peirianegol addas ar gyfer tasg benodol. | 1.3.2<br>Rhoi crynodeb o rai prosesau peirianegol gwahanol a'u pwrpasau.<br><br>Dewis prosesau peirianegol addas a pham eu bod yn addas ar gyfer tasgau gwahanol | 1.3.2<br>Amlinellu'r prosesau peirianegol a'u pwrpasau.<br><br>Amlinellu prosesau peirianegol addas ar gyfer tasgau gwahanol a pham eu bod yn addas. | 1.3.2<br>Esbonio pob un o'r prosesau peirianegol gwahanol a'u pwrpasau.<br><br>Esbonio pam mae prosesau gwahanol yn fwyaf addas ar gyfer tasgau gwahanol. | /4 |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| **Deilliant dysgu** | **Meini Prawf Asesu – gall y dysgwr:** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Mynediad 1 gyda lefel uchel o gefnogaeth: (1 pwynt)** | **Mynediad 2 gyda lefel ganolig o gefnogaeth: (2 bwynt)** | **Mynediad 3 gyda lefel isel o gefnogaeth: (3 phwynt)** | **Lefel 1 yn annibynnol: (4 pwynt)** | **Pwyntiau a roddwyd** |
| DD1.4<br>Bydd y dysgwr yn deall arferion gweithio diogel mewn peirianneg | 1.4.1<br>Dewis rhai enghreifftiau cyffredin o beryglon mewn peirianneg. | 1.4.1<br>Rhoi crynodeb o rai peryglon cyffredin gwahanol mewn peirianneg. | 1.4.1<br>Amlinellu peryglon cyffredin mewn peirianneg gan ddefnyddio rhai enghreifftiau. | 1.4.1<br>Disgrifio peryglon cyffredin gwahanol mewn peirianneg gan ddefnyddio amrywiaeth o enghreifftiau. | /4 |
| | 1.4.2<br>Dewis rhai mathau gwahanol o Gyfarpar Diogelu Personol (PPE) a ddefnyddir mewn peirianneg a'u paru'n gywir â rhai enghreifftiau.<br><br>Dewis Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) addas ar gyfer perygl penodol. | 1.4.2<br>Rhoi crynodeb o rai mathau gwahanol o Gyfarpar Diogelu Personol (PPE) a ddefnyddir mewn peirianneg gan ddefnyddio rhai enghreifftiau.<br><br>Dewis Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) addas ar gyfer amrywiaeth o beryglon. | 1.4.2<br>Amlinellu'r mathau o Gyfarpar Diogelu Personol (PPE) a ddefnyddir mewn peirianneg gan ddefnyddio enghreifftiau.<br><br>Awgrymu Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) addas ar gyfer peryglon gwahanol. | 1.4.2<br>Disgrifio'r Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) a ddefnyddir mewn peirianneg gan ddefnyddio enghreifftiau.<br><br>Esbonio pam mae Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) gwahanol yn fwyaf addas ar gyfer peryglon gwahanol. | /4 |
| | 1.4.3<br>Dewis rhai arwyddion iechyd a diogelwch cyffredin a ddefnyddir mewn peirianneg a'u paru â'u pwrpas a'r camau angenrheidiol gofynnol. | 1.4.3<br>Rhoi crynodeb o rai arwyddion iechyd a diogelwch gwahanol a ddefnyddir mewn peirianneg a'u pwrpasau a'r camau angenrheidiol gofynnol. | 1.4.3<br>Amlinellu pwrpas a chamau angenrheidiol gofynnol arwyddion iechyd a diogelwch a ddefnyddir mewn peirianneg. | 1.4.3<br>Esbonio pwrpas a chamau angenrheidiol gofynnol arwyddion iechyd a diogelwch a ddefnyddir mewn peirianneg. | /4 |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Awgrymu rhesymau pam mae arwyddion iechyd a diogelwch a ddefnyddir mewn peirianneg yn bwysig. | Esbonio pwysigrwydd arwyddion iechyd a diogelwch a ddefnyddir mewn peirianneg. | |

| **Deilliant dysgu** | **Meini Prawf Asesu – gall y dysgwr:** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Mynediad 1 gyda lefel uchel o gefnogaeth: (1 pwynt)** | **Mynediad 2 gyda lefel ganolig o gefnogaeth: (2 bwynt)** | **Mynediad 3 gyda lefel isel o gefnogaeth: (3 phwynt)** | **Lefel 1 yn annibynnol: (4 pwynt)** | **Pwyntiau a roddwyd** |
| DD1.4<br>Bydd y dysgwr yn deall arferion gweithio diogel mewn peirianneg | 1.4.4<br>Dewis a pharu deddfwriaeth allweddol â'i phwrpas.<br><br>Dewis o leiaf un ffordd y mae gweithwyr peirianneg yn cael eu cadw'n ddiogel gan eu cyflogwyr.<br><br>Dewis rhai rhesymau pam y mae arferion gweithio diogel yn bwysig. | 1.4.4<br>Rhoi crynodeb o rai deddfwriaethau allweddol a'u pwrpasau.<br><br>Rhoi crynodeb o rai ffyrdd gwahanol y mae gweithwyr peirianneg yn cael eu cadw'n ddiogel gan eu cyflogwyr.<br><br>Rhoi crynodeb o rai ffyrdd y mae arferion gweithio diogel yn bwysig. | 1.4.4<br>Amlinellu'r ddeddfwriaeth allweddol a'u pwrpasau.<br><br>Amlinellu'r ffyrdd y mae gweithwyr peirianneg yn cael eu cadw'n ddiogel gan eu cyflogwyr gan ddefnyddio rhai enghreifftiau.<br><br>Awgrymu rhesymau pam mae arferion gweithio diogel yn bwysig. | 1.4.4<br>Esbonio'r ddeddfwriaeth allweddol a'u pwrpasau.<br><br>Esbonio dyletswyddau gwahanol cyflogwr i gadw gweithleoedd peirianneg yn ddiogel a'u pwysigrwydd.<br><br>Esbonio pam mae arferion gweithio diogel yn bwysig gan ddefnyddio enghreifftiau. | /4 |
| | | | | **Cyfanswm nifer y pwyntiau a roddwyd** | **/48** |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

Enghreifftiau o dasgau

## DD1.1

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 1 (gyda lefel uchel o gefnogaeth):

- enwi'r pwrpas: rhoddir lluniau o broblemau ym mywydau pobl megis bod yn oer mewn cartref ac mae'n rhaid i ddysgwyr enwi/paru pwrpasau peirianneg er enghraifft, i gefnogi byw'n gyffyrddus ac yna dewis/paru ag enghraifft megis gwres canolog
- taith gerdded oriel: arddangos lluniau a geiriau o amgylch yr ystafell ddosbarth sy'n dangos enghreifftiau o allbynnau rydyn ni'n eu defnyddio ac yn eu gweld bob dydd er enghraifft, ffonau clyfar. Mae dysgwyr yn symud o gwmpas gyda sticeri sy'n dangos y mathau o allbynnau y mae peirianneg yn helpu i'w creu, er enghraifft, systemau egni, technoleg, trafnidiaeth ac yn eu hychwanegu at yr enghreifftiau cywir.
- gêm paru ryngweithiol: mae dysgwyr yn defnyddio gweithgaredd llusgo a gollwng i baru mathau o effeithiau peirianneg er enghraifft, gwella ansawdd bywyd gydag enghreifftiau perthnasol.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 2 (gyda chefnogaeth):

- grid trefnu categorïau: rhoddir grid i ddysgwyr gyda dwy golofn gyda'r teitlau: Pwrpas Peirianneg ac Enghreifftiau o Beirianneg.  Mae dysgwyr yn cwblhau'r grid gyda chymysgedd o bwrpasau ac enghreifftiau;  bydden nhw'n derbyn cardiau llun i'w helpu i gwblhau'r grid
- taith gerdded ddysgu:   mae dysgwyr yn cerdded o amgylch safle'r ysgol, gan adnabod allbynnau y mae peirianneg yn helpu i'w creu er enghraifft, cyfrifiadur. Mae dysgwyr yn rhoi categori'r eitem a nodwyd er enghraifft, technoleg
- gwylio ac adnabod: mae dysgwyr yn gwylio clipiau o raglenni perthnasol lle maen nhw'n rhoi enghreifftiau o'r ffyrdd y mae peirianneg yn ein helpu ac yn rhoi rhai enghreifftiau ac effeithiau perthnasol eraill.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 3 (gyda lefel isel o gefnogaeth):

- siarad a nodi: mae dysgwyr yn darllen enghreifftiau yn uchel ac yn nodi pa bwrpas peirianneg maen nhw'n paru ag ef, gan ddefnyddio rhestr o bwrpasau wedi'u paratoi
- cyrchu'r gwe:  mae dysgwyr yn defnyddio peiriant chwilio a meini prawf chwilio penodol i ddod o hyd i bethau y mae peirianneg yn helpu i'w creu ac enghreifftiau, ac yna yn eu cofnodi mewn meddalwedd o'u dewis
- gweithgaredd llenwi'r bylchau: rhoddir gosodiadau i ddysgwyr am effeithiau peirianneg ac maen nhw'n llenwi'r bylchau gydag enghreifftiau addas ac yna'n defnyddio'r rhain i greu poster neu gyflwyniad byr.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel 1 (i'w gwneud yn annibynnol):

- araith/cyflwyniad: mae dysgwyr yn paratoi ac yn cyflwyno araith neu gyflwyniad sy'n amlinellu pwrpasau peirianneg gan ddefnyddio enghreifftiau perthnasol
- llythyr capsiwl amser:  mae dysgwyr yn ysgrifennu llythyr ar gyfer capsiwl amser, gan amlinellu'r prif fathau gwahanol o allbynnau y mae peirianneg yn eu creu gydag enghreifftiau manwl
- blog: mae dysgwyr yn creu blog gyda'r prif fathau gwahanol o effeithiau peirianneg ac yn rhoi enghreifftiau gwahanol.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

DD1.2

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 1 (gyda lefel uchel o gefnogaeth):

- dyfalu pwy: rhoddir cardiau i ddysgwyr gyda rolau peirianneg er enghraifft, peiriannydd dylunio a chardiau ar wahân gyda chyfrifoldebau er enghraifft, dylunio cynhyrchion. Mae dysgwyr yn paru'r rôl â'r cyfrifoldeb
- poster rolau: rhoddir cardiau o'r rolau wedi'u paratoi i ddysgwyr gyda lluniau/eiconau. Maen nhw'n sticio'r cardiau ar boster gyda'r cyfrifoldeb cywir wedi'i restru oddi tano
- trefnu'r ysgol: rhoddir cardiau i ddysgwyr ar gyfer rolau gweithredydd, technegydd, uwch dechnegydd, peiriannydd, a rhestr o ffyrdd o symud ymlaen. Maen nhw'n eu trefnu yn nhrefn dilyniant ac yn dewis o leiaf un i enwi sut y gall y rôl honno symud ymlaen gan ddefnyddio'r rhestr a roddwyd
- paru lluniau: rhoddir i ddysgwyr lluniau o sectorau peirianneg a chardiau gyda'r hyn maen nhw'n ei greu neu'n ei wneud ac maen nhw'n eu paru â'r sector.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 2 (gyda lefel ganolig o gefnogaeth):

- holi ac ateb: mae'n rhaid i ddysgwyr ddweud a yw'r rôl yn rôl beirianneg gyffredin ai peidio, ac yna maen nhw'n rhoi rhywfaint o fanylion am y rolau a'r cyfrifoldebau (gellid rhoi rhestr o gyfrifoldebau iddyn nhw ac mae'n rhaid iddyn nhw roi'r rhai cywir)
- cardiau senarios: rhoddir senarios byr i ddysgwyr er enghraifft, cynnal a chadw cyfarpar i sicrhau eu bod yn gweithio'n ddiogel ac maen nhw'n nodi'r rôl sy'n gyfrifol am hyn, megis peiriannydd cynnal a chadw
- nodi a threfnu: rhoddir disgrifiadau i ddysgwyr o lefelau'r rolau peirianneg ac maen nhw'n eu rhoi yn y drefn gywir
- adnabod dilyniant: mae dysgwyr yn rhoi ffyrdd y gall peirianwyr symud ymlaen i lefelau uwch er enghraifft, ennill cymwysterau, profiad, neu hyfforddiant o restr o osodiadau
- labelu lluniau: rhoddir lluniau o sectorau peirianneg i ddysgwyr, ac yna gall dysgwyr naill ai ysgrifennu'r label cywir neu ddewis y label cywir o'r rhai a roddwyd iddyn nhw.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 3 (gyda lefel isel o gefnogaeth):

- tasg rôl lafar: mae dysgwyr yn darllen enghreifftiau o dasgau peirianneg yn uchel ac yn eu cysylltu â'r rôl gywir, gan roi disgrifiad byr o'r hyn y mae'r rôl yn ei wneud, gydag enghraifft ymarferol
- gweithgaredd cerdyn ymchwil: mae dysgwyr yn ymchwilio i un rôl beirianneg ac yn ysgrifennu'r rôl a'i chyfrifoldeb ar gerdyn. Yna mae'r dysgwyr mewn grwpiau bach yn paru'r cardiau ac yn siarad am y gwahaniaethau
- siarad am yr ysgol: mae dysgwyr yn dweud trefn wahanol y rolau (gweithredydd, technegydd, uwch dechnegydd, peiriannydd) a phwrpas pob lefel yn glir ac yn rhoi enghreifftiau o pam eu bod yn wahanol neu gellir gwneud hyn trwy holi ac ateb
- senarios dilyniant: mae dysgwyr yn darllen senarios o ddilyniant gyrfa ac yn nodi pa ddulliau sy'n helpu peirianwyr i symud i lefelau uwch er enghraifft, profiad, mentora, hyfforddiant
- tasg lafar yn ymwneud â'r sectorau: rhoddir lluniau i ddysgwyr o'r sectorau iddyn nhw siarad amdanynt, gan ddefnyddio enghreifftiau – gellid gofyn cwestiynau i ddysgwyr i'w annog.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel 1 (i'w gwneud yn annibynnol):

- cyflwyniad: mae dysgwyr yn paratoi ac yn rhoi cyflwyniad sy'n amlinellu'r prif rolau gwahanol mewn peirianneg a'u cyfrifoldebau gan ddefnyddio enghreifftiau
- adroddiad: mae dysgwyr yn ysgrifennu adroddiad byr yn amlinellu prif gyfrifoldebau rolau peirianneg gwahanol, a pham eu bod yn bwysig gan ddefnyddio enghreifftiau
- siart llif: mae dysgwyr yn creu siart llif sy'n dangos lefelau'r rolau peirianneg mewn trefn ac yn amlinellu sut mae dilyniant yn digwydd ym mhob cam

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

- amser cwestiynau: gofynnir cwestiynau i ddysgwyr am y sectorau peirianneg ac mae'n rhaid iddyn nhw roi atebion gydag enghreifftiau – gallai dysgwyr wneud hyn mewn parau ar ffurf cyfweliad neu flog fideo.

DD1.3

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 1 (gyda lefel uchel o gefnogaeth):

- paru cardiau: rhoddir tair set o gardiau i ddysgwyr, un gyda lluniau o offer neu offerynnau cyffredinol, un arall gyda lluniau o dasgau peirianegol syml ac un arall sydd â phwrpas cywir yr offer a'r offerynnau – mae'n rhaid iddyn nhw ddewis yr offer neu'r offeryn cywir ar gyfer y dasg a'r pwrpas cywir
- taith gerdded oriel: dangos lluniau neu ddefnyddio enghreifftiau go iawn o brosesau peirianegol a'u harddangos o amgylch yr ystafell ddosbarth neu'r gweithdy – yna mae dysgwyr yn dewis y broses gywir mewn ymateb i ofynion tasgau syml. Gellid hefyd rhoi cardiau tasgau i ddysgwyr ac mae'n rhaid iddyn nhw eu paru â'r prosesau cywir y maen nhw'n eu nodi
- gêm paru ryngweithiol: gweithgaredd llusgo a gollwng lle mae dysgwyr yn paru prosesau peirianegol er enghraifft, drilio, â'u pwrpasau megis uno metelau.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 2 (gyda lefel ganolig o gefnogaeth):

- grid trefnu: rhoddir tabl i ddysgwyr gyda cholofnau 'Offer/Offeryn/Pwrpas' ac maen nhw'n trefnu set o gardiau sy'n dangos y wybodaeth hon yn y golofn gywir, ac yn defnyddio hynny i greu poster/posteri neu gyflwyniad syml sy'n cynnwys y prif bwyntiau
- taith gerdded gweithdy: mae dysgwyr yn cerdded o gwmpas gweithdy ysgol i ddod o hyd i brosesau gwahanol ar gyfer tasgau gwahanol penodol – maen nhw'n rhoi rhesymau dros eu dewisiadau
- cardiau senarios: rhoddir disgrifiadau byr o dasgau i ddysgwyr ac yna maen nhw'n dewis y prosesau mwyaf addas – maen nhw'n rhoi rhesymau dros eu dewisiadau.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 3 (gyda lefel isel o gefnogaeth):

- rhannu gwybodaeth: mae dysgwyr yn rhoi sgwrs neu'n creu poster neu gyflwyniad am yr offer a'r offerynnau a'u pwrpasau – maen nhw'n darparu rhai tasgau addas ar gyfer pob un gyda rheswm dros ei ddefnyddio
- ymweld â busnes/gweithdy lleol: mae dysgwyr yn arsylwi offer, offerynnau a/neu brosesau mewn lleoliad peirianneg go iawn, ac yna'n cofnodi'r hyn a welsant a pham y defnyddiwyd pob un ar gyfer tasg benodol
- gweithgaredd llenwi'r bylchau: mae dysgwyr yn cwblhau datganiadau sy'n disgrifio pwrpas offer, offerynnau neu brosesau, er enghraifft. *Defnyddir micromedr i* ______ a gellid defnyddio'r wybodaeth hon wedyn i greu poster/cyflwyniad neu sgwrs.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel 1 (i'w gwneud yn annibynnol):

- cyflwyniad: mae dysgwyr yn paratoi ac yn rhoi cyflwyniad sy'n disgrifio offer, offerynnau a phrosesau, gan gynnwys pam mae pob un yn addas ar gyfer amrywiaeth o dasgau gwahanol
- arddangosiad ymarferol: mae dysgwyr yn cyflawni tasgau syml yn y gweithdy er enghraifft, drilio twll ac yn esbonio'r dewis o offer neu broses, a pham ei fod yn addas
- adroddiad: mae dysgwyr yn ysgrifennu adroddiad sy'n cymharu prosesau gwahanol ar gyfer tasg benodol, gan esbonio pam mae rhai opsiynau yn fwy addas nag eraill.

© WJEC CBAC Ltd 2026.

DRAFT

## DD1.4

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 1 (gyda lefel uchel o gefnogaeth):

- dewis perygl: rhoddir cardiau i ddysgwyr gydag enghreifftiau gweledol neu ysgrifenedig o beryglon cyffredin er enghraifft, llawr gwlyb, yna maen nhw’n dewis y perygl y mae'n ei ddangos
- dewis llun Cyfarpar Diogelu Personol (PPE): rhoddir lluniau o Gyfarpar Diogelu Personol (PPE) a disgrifiad ohono i ddysgwyr, ac maen nhw’n eu paru ac yna'n rhoi enghreifftiau o dasgau. Yna, maen nhw’n dewis y PPE i'w ddefnyddio
- adnabod arwyddion: arddangoswch arwyddion iechyd a diogelwch wedi'u hargraffu o amgylch yr ystafell. Mae dysgwyr yn cerdded o gwmpas ac yn sticio labeli arnyn nhw gan rhoi eu henw, ac yn esbonio'r camau angenrheidiol gofynnol ar gyfer pob arwydd
- llusgo a gollwng: creu cwis rhyngweithiol lle mae'r dysgwr yn paru'r ddeddfwriaeth allweddol â'i phwrpas. Gallech hefyd gyflwyno gwahanol luniau o weithwyr a chael y dysgwr i ddewis ffyrdd y gallai'r gweithwyr weithio'n ddiogel.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 2 (gyda lefel ganolig o gefnogaeth):

- grid trefnu: rhoddir tabl i ddysgwyr gyda cholofnau 'perygl/PPE/arwydd iechyd a diogelwch a phwrpas/cam gweithredu' – bydd dysgwyr yn gosod cardiau yn y golofn gywir, ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i greu poster neu gyflwyniad
- cardiau senarios: rhoddir senarios byr o'r gweithle peirianneg i ddysgwyr er enghraifft, defnyddio cemegion mewn labordy ac maen nhw’n rhoi crynodeb o'r peryglon, y Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) a'r arwyddion diogelwch perthnasol sydd eu hangen
- gêm adnabod yr arwydd: dangosir lluniau o arwyddion iechyd a diogelwch i'r dysgwyr ac mae'n rhaid iddyn nhw eu hadnabod ac yna rhoi'r cam gweithredu angenrheidiol gofynnol i gyd-fynd â'r arwydd – gellid defnyddio'r wybodaeth hon wedyn i greu poster neu gwis
- gweithgareddau o'r deddfwriaeth: rhoddir cardiau i ddysgwyr gydag enwau deddfwriaethau ac mae'n rhaid iddyn nhw roi'r pwyntiau allweddol – gellid defnyddio system wobrwyo efydd, arian, aur – lle rhoddir efydd am un neu ddau bwynt, arian am dri phwynt ac ati. Gellid hefyd rhoi lluniau neu senarios o weithwyr neu weithleoedd i ddysgwyr, ac maen nhw’n cynnig ffyrdd o weithio'n ddiogel a pham mae hyn yn bwysig.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 3 (gyda lefel isel o gefnogaeth):

- chwarae rôl: mae dysgwyr yn actio senarios y gweithle sy'n dangos peryglon a sut i gymhwyso Cyfarpar Diogelu Personol (PPE), dilyn arwyddion ac arferion diogel
- gweithgaredd asesu risg: rhoddir lluniau neu senarios o dasgau peirianegol i ddysgwyr ac maen nhw'n nodi peryglon, ac yna'n awgrymu Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) addas sydd eu hangen ac yn nodi'r rheoliadau sy'n berthnasol
- llawlyfr diogelwch: mae dysgwyr yn creu llawlyfr am yr arwyddion iechyd a diogelwch a'r camau gweithredu angenrheidiol gofynnol, gyda'r rhesymau pam eu bod yn bwysig i'r sector
- llinell amser ryngweithiol: mae dysgwyr yn creu llinell amser sy'n dangos datblygiad deddfwriaethau iechyd a diogelwch allweddol ac yn cysylltu pob un â'i phwrpas a'i heffaith.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel 1 (i'w gwneud yn annibynnol):

- cyflwyniad: mae dysgwyr yn paratoi ac yn rhoi cyflwyniad sy'n disgrifio peryglon cyffredin, Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) addas, arwyddion iechyd a diogelwch a deddfwriaeth berthnasol gan esbonio pam mae pob un yn bwysig
- adroddiad astudiaeth achos: mae dysgwyr yn darllen astudiaeth achos damwain ym maes peirianneg ac yn ysgrifennu adroddiad yn esbonio'r peryglon, sut y gallai Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) ac arwyddion diogelwch fod wedi ei hatal a pha ddeddfwriaeth sy'n berthnasol
- briffio diogelwch: mae dysgwyr naill ai'n ysgrifennu neu'n cyflwyno briff i esbonio pwysigrwydd diogelwch, gan roi enghreifftiau o arfer da a gwael
- archwiliad diogelwch: mae dysgwyr yn cynnal archwiliad bach o ystafell ddosbarth, gweithdy neu weithle, gan nodi peryglon, argymell Cyfarpar Diogelu Personol (PPE), gwirio am arwyddion a chysylltu arsylwadau â deddfwriaeth ac arferion diogel er mwyn gallu cynnig argymhellion ar gyfer gwella.

## Cyfleoedd ar gyfer integreiddio profiadau dysgu sy'n ymwneud â'r byd gwaith

Mae'r uned hon yn creu cyfleoedd i ddatblygu'r profiadau dysgu canlynol (ni fydd profiadau yn cael eu hasesu'n uniongyrchol):

- rhyngweithio â siaradwyr gwadd o'r sector peirianneg i gael mewnwelediad o lygad y ffynnon i arferion a disgwyliadau'r byd go iawn
- gofyn cwestiynau a thrafod tueddiadau, heriau ac arloesiadau cyfredol yn y sector gyda gweithwyr proffesiynol o'r diwydiant
- ymweld ag adeiladau, datblygiadau neu safleoedd lleol neu fynychu digwyddiadau i ddeall y sector peirianneg o lygad y ffynnon
- meithrin ysbrydoliaeth a chymhelliant o glywed teithiau gyrfa personol ac am lwyddiannau.

Bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran y cyfleoedd y mae'r cymhwyster yn eu cynnig i athrawon/canolfannau i integreiddio'r profiadau a'r sgiliau dysgu hyn wrth ei gyflwyno.

Gweler Atodiad A am gyfleoedd i ddatblygu themâu trawsbynciol, sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol.  Mae gwybodaeth bellach wedi'i chynnwys yn y Canllawiau Addysgu.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# Uned 2 Cynhyrchu Cynnyrch

| | |
|---|---|
| **Oriau Dysgu dan Arweiniad (ODA)** | 84 |
| **Trosolwg o'r uned** | Mae'r uned hon yn canolbwyntio ar gymhwyso sgiliau yn ymarferol mewn amgylchedd gweithdy. Mae dysgwyr yn datblygu'r gallu i ddehongli lluniadau a gwybodaeth peirianegol er mwyn cynllunio a chyflawni tasgau ymarferol yn ddiogel ac yn effeithlon.<br>Mae'r uned yn cefnogi dysgwyr i gynllunio gweithgareddau peirianegol, dewis offer a chyfarpar priodol, a dilyn gweithdrefnau gweithio diogel. Bydd dysgwyr yn datblygu sgiliau ymarferol torri, siapio a gosod deunyddiau, tra'n cymhwyso mesurau rheoli i reoli risgiau mewn amgylcheddau peirianegol.<br>Mae cywirdeb ac ansawdd yn themâu allweddol trwy gydol yr uned.<br><br>Bydd dysgwyr yn defnyddio cyfarpar mesur i wirio gwaith yn erbyn goddefiannau penodol, cofnodi canlyniadau, ac adolygu gwaith ymarferol i nodi cyfleoedd ar gyfer gwella. Mae hyn yn cefnogi datblygu arferion peirianegol da a sylw i fanylder.<br><br>Mae'r uned hefyd yn datblygu dealltwriaeth dysgwyr o weithdrefnau cau diogel, gan gynnwys gwirio cyfarpar ar ôl eu defnyddio, adfer gweithleoedd, ac adrodd am faterion, gan gefnogi arferion gweithio diogel a chyfrifol mewn peirianneg.<br><br>Pwrpas yr uned yw galluogi dysgwyr i wneud y canlynol:<br><br>• dehongli lluniadau a gwybodaeth beirianegol<br>• cynllunio a chyflawni tasgau peirianegol ymarferol yn ddiogel<br>• defnyddio offer a phrosesau'n effeithiol<br>• gwirio cywirdeb ac ansawdd gwaith<br>• cau gweithgareddau peirianegol yn ddiogel ac yn gyfrifol. |
| **Deilliannau Dysgu** | Drwy gwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:<br><br>2.1 Gallu dehongli a defnyddio gwybodaeth beirianegol o siartiau a lluniadau<br>2.2 Gallu cynllunio gweithgareddau peirianegol ymarferol yn ddiogel ac effeithlon<br>2.3 Gallu torri a siapio deunyddiau'n ddiogel ac yn effeithiol<br>2.4 Gallu gwirio cywirdeb gwaith<br>2.5 Gallu cau gweithgareddau peirianegol yn ddiogel |
| **Crynodeb o'r asesu** | Bydd asesu ar gyfer yr uned hon yn cael ei gynnal trwy weithgareddau a osodir gan yr athro/athrawes sy'n galluogi dysgwyr i ddangos yr hyn y maen nhw wedi'i ddysgu mewn ffyrdd ymarferol a hygyrch.<br><br>Er mwyn cyflawni pob deilliant dysgu, rhaid i ddysgwyr ddarparu tystiolaeth sy'n bodloni'r meini prawf asesu. Mae tasgau enghreifftiol wedi'u cynnwys ar ôl yr uned. |

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| | |
|---|---|
| | Rhaid i ganolfannau sicrhau nad yw gweithgareddau asesu yn para'n hirach na'r uchafswm o 21 awr. I'r rhan fwyaf o ddysgwyr, bydd yr asesu fel arfer o fewn yr amrediad dangosol o 19–21 awr, er y gellir defnyddio cyfnodau byrrach lle bo hynny'n briodol, yn enwedig ar gyfer dysgwyr Lefel Mynediad. Ni ddylid trin yr amrediad fel lleiafswm, a rhaid i ganolfannau osgoi gorasesu.<br><br>Rhaid i ganolfannau gofnodi'r amser bras y mae pob dysgwr yn ei dreulio ar weithgareddau asesu at ddibenion cymedroli a sicrhau ansawdd. |
| **Yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer yr asesiad** | Mae angen yr offer, offerynnau, cyfarpar, Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) a'r deunyddiau angenrheidiol ar ganolfannau a fydd yn galluogi dysgwyr i ymgymryd â thasgau ymarferol sy'n bodloni'r deilliannau dysgu. Er enghraifft, gweler 2.3.2, 2.3.3, 2.3.5 a 2.4.1 am gyfeiriadau penodol. |
| **Cysylltiadau ag unedau a chymwysterau eraill CBAC** | Efallai y bydd gan ddysgwyr sy'n cwblhau'r uned hon ddiddordeb hefyd yn y canlynol:<br><br>Sgiliau Bywyd: Cymorth Cyntaf Sylfaenol<br>Sgiliau Bywyd: Diogelwch Personol<br>Sgiliau Bywyd: Cynaliadwyedd ar Waith<br>Sgiliau Gwaith: Goresgyn Rhwystrau<br>Sgiliau Gwaith: Cynllunio Datblygiad Personol<br>Sgiliau Gwaith: Llesiant a Gwaith |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## Cynnwys

| **Deilliant dysgu 2.1**<br><br>**Bydd y dysgwr yn gallu dehongli a defnyddio gwybodaeth beirianegol o siartiau a lluniadau** | **Cynnwys a addysgir** |
|---|---|
| 2.1.1<br>Dehongli gwybodaeth ddimensiynol | Deall gwybodaeth ddimensiynol gan gynnwys:<br><br>• onglau<br>• siamfferi<br>• diamedrau<br>• dimensiynau<br>• dimensiynau llinol<br>• radiysau. |
| 2.1.2<br>Dehongli gwybodaeth dechnegol | Deall gwybodaeth dechnegol gan gynnwys:<br><br>• cyflymderau torri<br>• meintiau edafedd<br>• goddefiannau. |
| 2.1.3<br>Defnyddio gwybodaeth ddimensiynol a thechnegol i gwblhau tasgau peirianegol | Cysylltu'r sgiliau o 2.1.1 a 2.1.2 â thasgau gwneud ymarferol drwy:<br><br>• ddeall gofynion tasgau<br>• deall gwybodaeth dechnegol<br>• cwblhau tasgau gwahanol yn effeithiol. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| **Deilliant dysgu 2.2**<br><br>**Bydd y dysgwr yn gallu cynllunio gweithgareddau peirianegol yn ddiogel ac effeithlon** | **Cynnwys a addysgir** |
|---|---|
| 2.2.1<br>Cynllunio tasgau peirianegol | Cynllunio tasg trwy wneud y canlynol yn effeithiol:<br><br>• cynhyrchu rhestr o'r offer a chyfarpar sydd eu hangen i gwblhau'r dasg<br>• dangos gwaith cyfrifo y camau unigol ar gyfer gwneud ac ystyried mesurau risg a rheoli<br>• ystyried yr amserlenni ar gyfer gwneud. |
| 2.2.2<br>Cyflawni tasgau peirianegol yn ddiogel | Cyflawni tasgau peirianegol ymarferol yn ddiogel drwy:<br><br>• ddilyn rheolau diogelwch y gweithdy a rheoliadau perthnasol<br>• dehongli asesiadau risg<br>• cymhwyso mesurau rheoli<br>• defnyddio Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) yn gywir. |

| **Deilliant dysgu 2.3**<br><br>**Bydd y dysgwr yn gallu torri a siapio deunyddiau'n ddiogel ac yn effeithiol** | **Cynnwys a addysgir** |
|---|---|
| 2.3.1<br>Paratoi deunyddiau ar gyfer mesur a marcio | Paratoi deunyddiau'n barod ar gyfer mesur a marcio i sicrhau cywirdeb, eglurder a diogelwch trwy:<br><br>• gael gwared ar falurion, olew, rhwd<br>• cael gwared ar ymylon garw, ymylon miniog<br>• cymhwyso'r cyfrwng mesur a marcio yn effeithiol. |
| 2.3.2<br>Mesur a marcio | Mesur a marcio amrywiaeth o ffurfiau deunydd gan gynnwys:<br><br>• stoc bar<br>• deunyddiau fflat neu len<br>• trychiadau crwn/silindrog.<br><br>Defnyddio dulliau mesur a marcio gan gynnwys:<br><br>• marcio uniongyrchol gan ddefnyddio offerynnau<br>• defnyddio patrymluniau.<br><br>Defnyddio amrywiaeth o gyfarpar mesur a marcio gan gynnwys:<br><br>• rhanyddion/tramelau<br>• onglyddion<br>• pynsiau<br>• prennau mesur/tapiau mesur |

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| **Deilliant dysgu 2.3**<br><br>**Bydd y dysgwr yn gallu torri a siapio deunyddiau'n ddiogel ac yn effeithiol** | **Cynnwys a addysgir** |
|---|---|
| | • sgrifelli<br>• sgwariau. |
| 2.3.3<br>Dulliau gosod â llaw | Defnyddio amrywiaeth o ddulliau gosod â llaw i dorri a siapio deunyddiau, gan gynnwys:<br><br>• torri edafedd sgriw<br>• drilio<br>• ffeilio<br>• llifio â llaw. |
| 2.3.4<br>Goddefiannau | Gweithio o fewn goddefiannau penodol cyffredinol wrth dorri a siapio deunyddiau yn ystod:<br><br>• gwaith gosod â llaw<br>• gwaith llenfetel. |
| 2.3.5<br>Gwirio a gorffennu gwaith sydd wedi'i gwblhau | Gwirio gwaith sydd wedi'i gwblhau am lendid a gorffennu ymylon miniog trwy:<br><br>• dadarwhau<br>• dadtseimio. |

| **Deilliant dysgu 2.4**<br><br>**Bydd y dysgwyr yn gallu gwirio cywirdeb y gwaith** | **Cynnwys a addysgir** |
|---|---|
| 2.4.1<br>Defnyddio cyfarpar i fesur cywirdeb | Defnyddio cyfarpar ar gyfer mesur cywirdeb megis:<br><br>• sgwâr peiriannydd<br>• medryddion teimlo<br>• micromedr<br>• riwl ddur<br>• caliper fernier. |
| 2.4.2<br>Gwirio cywirdeb dimensiynol | Adolygu gwaith wedi'i gwblhau yn effeithiol drwy:<br><br>• wirio'r cywirdeb dimensiynol yn erbyn goddefiannau penodol. |
| 2.4.3<br>Cofnodi canlyniadau a gwelliannau | Cofnodi ac adolygu canlyniadau'n effeithiol drwy:<br><br>• ddogfennu canlyniadau o'r gwiriadau cywir dimensiynol<br>• nodi cyfleoedd ar gyfer gwella yn y dyfodol. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| **Deilliant dysgu 2.5**<br><br>**Bydd y dysgwr yn gallu cau gweithgareddau peirianegol yn ddiogel** | **Cynnwys a addysgir** |
|---|---|
| 2.5.1<br>Cynnal archwiliadau gweledol | Cynnal archwiliad gweledol effeithiol o offer a chyfarpar trwy:<br><br>• wirio am unrhyw arwyddion gweledol cyffredinol o draul neu ddifrod<br>• gwirio'n benodol am ymylon torri pŵl<br>• gwirio Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) am ddifrod penodol. |
| 2.5.2<br>Gwirio cyfarpar ar ôl eu defnyddio | Gwirio cyfarpar yn effeithiol ar ôl eu defnyddio drwy:<br><br>• wirio bod y cyfarpar wedi'u hynysu<br>• gwirio bod gardiau'n bresennol ac yn weithredol. |
| 2.5.3<br>Adfer gweithleoedd | Adfer y gweithle'n effeithiol drwy:<br><br>• cael gwared ar offer a'u storio<br>• cael gwared ar ddeunydd gwastraff a/neu ei waredu'n briodol<br>• adrodd am unrhyw broblemau gydag offer a chyfarpar<br>• storio darnau gwaith. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| **Deilliant dysgu** | **Meini Prawf Asesu – gall y dysgwr:** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Mynediad 1 gyda lefel uchel o gefnogaeth: (1 pwynt)** | **Mynediad 2 gyda lefel ganolig o gefnogaeth: (2 bwynt)** | **Mynediad 3 gyda lefel isel o gefnogaeth: (3 phwynt)** | **Lefel 1 yn annibynnol: (4 pwynt)** | **Pwyntiau a roddwyd** |
| DD2.1<br>Bydd y dysgwr yn gallu dehongli a defnyddio gwybodaeth beirianegol o luniadau a siartiau | 2.1.1<br>Dehongli gwybodaeth ddimensiynol sylfaenol ar luniadau peirianegol syml, a siartiau gyda rhywfaint o gywirdeb. | 2.1.1<br>Dehongli gwybodaeth ddimensiynol ar wahanol luniadau peirianegol a siartiau, gyda rhywfaint o gywirdeb. | 2.1.1<br>Dehongli gwybodaeth ddimensiynol ar wahanol luniadau peirianegol a siartiau, yn gywir ar y cyfan. | 2.1.1<br>Dehongli gwybodaeth ddimensiynol ar wahanol luniadau peirianegol a siartiau yn gywir. | /4 |
| | 2.1.2<br>Dehongli gwybodaeth dechnegol sylfaenol ar luniadau peirianegol syml a siartiau, gyda rhywfaint o gywirdeb. | 2.1.2<br>Dehongli gwybodaeth dechnegol ar wahanol luniadau peirianegol a siartiau, gyda rhywfaint o gywirdeb. | 2.1.2<br>Dehongli'r rhan fwyaf o wybodaeth dechnegol ar wahanol luniadau peirianegol a siartiau, yn gywir ar y cyfan. | 2.1.2<br>Dehongli gwybodaeth dechnegol ar wahanol luniadau peirianegol a siartiau yn gywir. | /4 |
| | 2.1.3<br>Defnyddio rhywfaint o wybodaeth ddimensiynol a thechnegol benodol i gyflawni tasgau gwneud sylfaenol yn effeithiol. | 2.1.3<br>Defnyddio gwybodaeth ddimensiynol a thechnegol benodol i gyflawni tasgau gwneud sylfaenol a mwy cymhleth yn effeithiol. | 2.1.3<br>Defnyddio gwybodaeth ddimensiynol a thechnegol i gyflawni tasgau gwneud mwy cymhleth yn effeithiol. | 2.1.3<br>Defnyddio gwybodaeth ddimensiynol a thechnegol i gyflawni tasgau gwneud cymhleth yn effeithiol. | /4 |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| **Deilliant dysgu** | **Meini Prawf Asesu – gall y dysgwr:** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Mynediad 1 gyda lefel uchel o gefnogaeth: (1 pwynt)** | **Mynediad 2 gyda lefel ganolig o gefnogaeth: (2 bwynt)** | **Mynediad 3 gyda lefel isel o gefnogaeth: (3 phwynt)** | **Lefel 1 yn annibynnol: (4 pwynt)** | **Pwyntiau a roddwyd** |
| DD2.2<br>Bydd y dysgwr yn gallu cynllunio gweithgareddau peirianegol ymarferol yn ddiogel ac effeithlon | 2.2.1<br>Cynllunio tasgau gwneud sylfaenol yn effeithiol sy'n cwmpasu rhai o'r elfennau gofynnol. | 2.2.1<br>Cynllunio tasgau sylfaenol a mwy cymhleth yn effeithiol sy'n cwmpasu'r rhan fwyaf o'r elfennau gofynnol. | 2.2.1<br>Cynllunio tasgau gwneud mwy cymhleth, sy'n cwmpasu'r elfennau gofynnol yn effeithiol. | 2.2.1<br>Cynllunio tasgau gwneud cymhleth, sy'n cwmpasu'r elfennau gofynnol yn effeithiol. | /4 |
| | 2.2.2<br>Dangos ymwybyddiaeth o weithdrefnau diogelwch sylfaenol gyda rhywfaint o ddealltwriaeth o risgiau a mesurau rheoli. | 2.2.2<br>Dilyn gweithdrefnau diogelwch gyda rhywfaint o ddealltwriaeth glir o risgiau a mesurau rheoli. | 2.2.2<br>Dangos dealltwriaeth glir o'r rhan fwyaf o risgiau a mesurau rheoli a dilyn gweithdrefnau diogelwch yn effeithiol. | 2.2.2<br>Dangos dealltwriaeth glir o'r holl risgiau a mesurau rheoli a dilyn gweithdrefnau diogelwch yn effeithiol. | /4 |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| **Deilliant dysgu** | **Meini Prawf Asesu – gall y dysgwr:** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Mynediad 1 gyda lefel uchel o gefnogaeth: (1 pwynt)** | **Mynediad 2 gyda lefel ganolig o gefnogaeth: (2 bwynt)** | **Mynediad 3 gyda lefel isel o gefnogaeth: (3 phwynt)** | **Lefel 1 yn annibynnol: (4 pwynt)** | **Pwyntiau a roddwyd** |
| DD2.3<br>Bydd y dysgwr yn gallu torri a siapio deunyddiau'n ddiogel ac yn effeithiol | 2.3.1<br>Dangos paratoi sylfaenol o ddeunyddiau ar gyfer mesur a marcio. | 2.3.1<br>Rhywfaint o baratoi deunyddiau'n effeithiol ar gyfer mesur a marcio. | 2.3.1<br>Dangos paratoi deunyddiau'n effeithiol ar y cyfan ar gyfer mesur a marcio. | 2.3.1<br>Dangos paratoi deunyddiau'n effeithiol ar gyfer mesur a marcio. | /4 |
| | 2.3.2<br>Dangos mesur a marcio rhai ffurfiau sylfaenol gwahanol, gan ddefnyddio rhai dulliau a chyfarparu sylfaenol gwahanol. | 2.3.2<br>Marcio a mesur rhai ffurfiau gwahanol gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau a chyfarpar gwahanol. | 2.3.2<br>Dangos marcio a mesur effeithiol ar y cyfan o ffurfiau gwahanol gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau a chyfarpar. | 2.3.2<br>Dangos marcio a mesur effeithiol o ffurfiau gwahanol gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau a chyfarpar. | /4 |
| | 2.3.3<br>Dangos amrywiaeth o ddulliau torri neu siapio syml gan ddefnyddio rhai offer llaw gwahanol. | 2.3.3<br>Defnyddio amrywiaeth o ddulliau gosod â llaw gan ddefnyddio rhywfaint o offer llaw gwahanol. | 2.3.3<br>Dangos dulliau gosod â llaw effeithiol ar y cyfan gan ddefnyddio offer llaw gwahanol. | 2.3.3<br>Dangos dulliau gosod â llaw effeithiol gan ddefnyddio offer llaw gwahanol. | /4 |
| | 2.3.4<br>Cyflawni gwaith gosod â llaw i oddefiant +/- 2mm.<br><br>Cyflawni gwaith llenfetel i oddefiant +/- 7mm. | 2.3.4<br>Cyflawni gwaith gosod â llaw i oddefiant +/- 1.5mm.<br><br>Cyflawni gwaith llenfetel i oddefiant +/- 6mm. | 2.3.4<br>Cyflawni gwaith gosod â llaw i oddefiant +/- 1mm.<br><br>Cyflawni tasgau llenfetel i oddefiant +/- 5mm. | 2.3.4<br>Cyflawni tasgau gosod â llaw i oddefiant +/- 0.8mm.<br><br>Cyflawni tasgau llenfetel i oddefiant +/- 4mm. | /4 |
| | 2.3.5<br>Dangos gwirio sylfaenol o waith a gwblhawyd gyda | 2.3.5<br>Gwneud rhywfaint o wirio effeithiol o waith a | 2.3.5<br>Dangos gwirio effeithiol ar y cyfan a gorffennu i safon dderbyniol. | 2.3.5<br>Dangos gwirio effeithiol a gorffennu i safon dda. | /4 |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| **Deilliant dysgu** | **Meini Prawf Asesu – gall y dysgwr:** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Mynediad 1 gyda lefel uchel o gefnogaeth: (1 pwynt)** | **Mynediad 2 gyda lefel ganolig o gefnogaeth: (2 bwynt)** | **Mynediad 3 gyda lefel isel o gefnogaeth: (3 phwynt)** | **Lefel 1 yn annibynnol: (4 pwynt)** | **Pwyntiau a roddwyd** |
| | rhywfaint o orffennu sylfaenol, os oes angen. | gwblhawyd a gorffennu, os oes angen. | | | |

| **Deilliant dysgu** | **Meini Prawf Asesu – gall y dysgwr:** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Mynediad 1 gyda lefel uchel o gefnogaeth: (1 pwynt)** | **Mynediad 2 gyda lefel ganolig o gefnogaeth: (2 bwynt)** | **Mynediad 3 gyda lefel isel o gefnogaeth: (3 phwynt)** | **Lefel 1 yn annibynnol: (4 pwynt)** | **Pwyntiau a roddwyd** |
| DD2.4<br>Bydd y dysgwr yn gallu gwirio cywirdeb y gwaith | 2.4.1<br>Defnyddio cyfarpar gwahanol yn effeithiol i wirio mesuriadau gyda rhywfaint o gywirdeb. | 2.4.1<br>Defnyddio cyfarpar mesur gwahanol yn effeithiol, i wirio mesuriadau gyda gradd weddol o gywirdeb. | 2.4.1<br>Dangos defnydd effeithiol ar y cyfan o gyfarpar mesur gwahanol gyda lefel dda o gywirdeb. | 2.4.1<br>Dangos defnydd cywir o gyfarpar mesur gwahanol gyda lefel uchel o gywirdeb. | /4 |
| | 2.4.2<br>Dangos gwirio ac adolygu sylfaenol o waith am faint neu siâp. | 2.4.2<br>Cynnal rhywfaint o wirio ac adolygu effeithiol o waith yn erbyn goddefiannau penodol. | 2.4.2<br>Dangos gwirio ac adolygu effeithiol ar y cyfan o waith a gwblhawyd yn erbyn goddefiannau penodol. | 2.4.2<br>Dangos gwirio ac adolygu effeithiol o waith a gwblhawyd yn erbyn goddefiannau penodol. | /4 |
| | 2.4.3<br>Dangos cofnodi syml o ganlyniadau, er efallai nad ydynt i gyd yn gywir/clir. | 2.4.3<br>Cynnal rhywfaint o gofnodi effeithiol o ganlyniadau gyda rhywfaint o gywirdeb ac eglurder. | 2.4.3<br>Dangos cofnodi effeithiol o ganlyniadau sy'n gywir ac yn glir ar y cyfan.<br><br>Cyflwyno gwelliannau ar gyfer y dyfodol sy'n | 2.4.3<br>Dangos cofnodi effeithiol o ganlyniadau sy'n gywir ac yn glir.<br><br>Cyflwyno gwelliannau ar gyfer y dyfodol sy'n | /4 |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| **Deilliant dysgu** | **Meini Prawf Asesu – gall y dysgwr:** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Mynediad 1 gyda lefel uchel o gefnogaeth: (1 pwynt)** | **Mynediad 2 gyda lefel ganolig o gefnogaeth: (2 bwynt)** | **Mynediad 3 gyda lefel isel o gefnogaeth: (3 phwynt)** | **Lefel 1 yn annibynnol: (4 pwynt)** | **Pwyntiau a roddwyd** |
| | Cyflwyno rhai gwelliannau syml ar gyfer y dyfodol er efallai na fydd y rhain yn gyraeddadwy ac yn realistig. | Cyflwyno rhai gwelliannau ar gyfer y dyfodol sy'n gyraeddadwy ac yn realistig. | gyraeddadwy ac yn realistig ar y cyfan. | gyraeddadwy ac yn realistig. | |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| **Deilliant dysgu** | **Meini Prawf Asesu – gall y dysgwr:** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Mynediad 1 gyda lefel uchel o gefnogaeth: (1 pwynt)** | **Mynediad 2 gyda lefel ganolig o gefnogaeth: (2 bwynt)** | **Mynediad 3 gyda lefel isel o gefnogaeth: (3 phwynt)** | **Lefel 1 yn annibynnol: (4 pwynt)** | **Pwyntiau a roddwyd** |
| DD2.5<br>Bydd y dysgwr yn gallu cau gweithgareddau peirianegol yn ddiogel | 2.5.1<br>Dangos archwiliad gweledol cyflym cyffredinol o offer a chyfarpar am draul/difrod amlwg. | 2.5.1<br>Cynnal archwiliad gweledol cyffredinol o offer a chyfarpar am draul/difrod amlwg. | 2.5.1<br>Dangos archwiliad gweledol effeithiol o offer a chyfarpar am draul/difrod amlwg a llai amlwg. | 2.5.1<br>Dangos archwiliad gweledol effeithiol a thrylwyr o offer a chyfarpar am bob math o draul/difrod. | /4 |
| | 2.5.2<br>Dangos gwiriad cyflym cyffredinol o offer. | 2.5.2<br>Cynnal gwiriad cyffredinol o offer. | 2.5.2<br>Dangos bod rhai gwiriadau effeithiol wedi'u cynnal i gadarnhau bod offer wedi'u hynysu ac yn ddiogel. | 2.5.2<br>Dangos bod gwiriadau effeithiol a chynhwysfawr wedi'u cynnal i gadarnhau bod offer wedi'u hynysu ac yn ddiogel. | /4 |
| | 2.5.3<br>Dangos tacluso sylfaenol sy'n adfer y gweithle. | 2.5.3<br>Cynnal tacluso cyffredinol i adfer y gweithle. | 2.5.3<br>Dangos adfer y gweithle yn effeithiol ar y cyfan. | 2.5.3<br>Dangos adfer y gweithle yn effeithiol ac yn drylwyr. | /4 |
| | | | | **Cyfanswm nifer y pwyntiau a roddwyd** | **/64** |

.

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## Enghreifftiau o dasgau

### DD2.1

Bydd y dysgwr yn gallu dehongli gwybodaeth beirianegol o luniadau a siartiau.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 1 (gyda lefel uchel o gefnogaeth):

- labelu'r lluniad: rhoddir lluniad peirianegol syml iawn i ddysgwyr gyda nodweddion allweddol wedi'u hamlygu. Mae'r lluniadau yn labelu gwybodaeth sylfaenol megis hyd, diamedr a siâp gan ddefnyddio cardiau geiriau
- mesur a pharu: gan ddefnyddio pren mesur, mae dysgwyr yn mesur nodwedd sydd wedi'i marcio ymlaen llaw ar ddarn gwaith, a'i pharu â'r dimensiwn penodol ar y lluniad
- tasg cyflwyno syml: mae dysgwyr yn copïo gwybodaeth sylfaenol o luniad i daflen waith syml neu dempled sy'n cynnwys blychau.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 2 (gyda lefel ganolig o gefnogaeth):

- nodi dimensiynau: mae dysgwyr yn nodi ac yn rhoi cylch o gwmpas dimensiynau llinol a diamedrau ar luniad syml
- tasg mesur sylfaenol: mae dysgwyr yn defnyddio dimensiynau penodol o luniad i fesur cydran wedi'i pharatoi gan ddefnyddio riwl ddur
- gweithgaredd braslunio: mae dysgwyr yn cynhyrchu braslun llawrydd syml sy'n dangos dimensiynau allweddol wedi'u cymryd o luniad.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 3 (gyda lefel isel o gefnogaeth):

- dehongli nodweddion: mae dysgwyr yn dehongli onglau, siamfferi a radiysau o luniad peirianegol ac yn esbonio eu hystyr ar lafar neu'n ysgrifenedig
- defnyddio data technegol: mae dysgwyr yn defnyddio gwybodaeth o luniad neu siart (er enghraifft, cyflymder torri neu amrediad goddefiant) i gyflawni tasg dan arweiniad
- golygon lluniadu: mae dysgwyr yn cyflwyno gwybodaeth gan ddefnyddio golwg isometrig neu olwg orthograffig syml, gan gynnwys dimensiynau allweddol.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel 1 (i'w gwneud yn annibynnol):

- tasg dehongli llawn: mae dysgwyr yn dehongli lluniad peirianegol manwl yn annibynnol gan gynnwys goddefiannau, meintiau edafedd, a nifer o ddimensiynau
- tasg gymhwyso: mae dysgwyr yn defnyddio data technegol megis manylebau edafedd a goddefiannau i gyflawni tasg neu benderfyniad sy'n gysylltiedig â pheirianneg
- cyflwyniad ffurfiol: mae dysgwyr yn cynhyrchu lluniad peirianegol clir a chywir gan ddefnyddio confensiynau cydnabyddedig, gan gynnwys bloc teitl, golygon a dimensiynau cywir.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## DD2.2

Bydd y dysgwr yn gallu cynllunio gweithgareddau peirianegol ymarferol yn ddiogel ac effeithlon.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 1 (gyda lefel uchel o gefnogaeth):

- cardiau diogelwch ie/na: dangosir lluniau o weithgareddau gweithdy i ddysgwyr ac maen nhw'n nodi a ydyn nhw'n ddiogel neu'n anniogel
- paru Cyfarpar Diogelu Personol (PPE): mae dysgwyr yn paru eitemau o Gyfarpar Diogelu Personol (PPE) â thasg syml (er enghraifft, drilio → goglau)
- Cynllun dau gam: mae dysgwyr yn rhoi dau gam sylfaenol mewn trefn ar gyfer tasg syml (er enghraifft, mesur → torri) gan ddefnyddio cardiau llun.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 2 (gyda lefel ganolig o gefnogaeth):

- adolygu asesiad risg syml: mae dysgwyr yn darllen asesiad risg byr, syml ac yn nodi peryglon a risgiau gan ddefnyddio rhestr wirio
- arsylwi'r defnydd o Gyfarpar Diogelu Personol (PPE): mae dysgwyr yn defnyddio Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) yn gywir yn ystod gweithgaredd ymarferol dan oruchwyliaeth
- tasg rhoi mewn trefn: mae dysgwyr yn rhoi sawl cam ar gyfer tasg ymarferol syml yn y drefn gywir.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 3 (gyda lefel isel o gefnogaeth):

- cymhwyso mesurau rheoli: mae dysgwyr yn dangos eu dealltwriaeth trwy gymhwyso mesurau rheoli priodol yn ystod tasg ymarferol
- dewis Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) yn annibynnol: mae dysgwyr yn dewis ac yn defnyddio Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) priodol ar gyfer tasg heb fawr o annog
- arsylwi gweithio diogel: arsylwir dysgwyr yn dilyn arferion gweithio diogel trwy gydol y gweithgaredd
- taflen waith cynllunio tasg: mae dysgwyr yn cynllunio'r camau sydd eu hangen i gwblhau tasg ymarferol, gan gynnwys rhestru offer, cyfarpar a Chyfarpar Diogelu Personol (PPE).

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel 1 (i'w gwneud yn annibynnol):

- cymhwyso asesiad risg: mae dysgwyr yn dehongli asesiad risg yn annibynnol ac yn dangos mesurau rheoli yn ystod gweithgaredd peirianegol ymarferol
- cynllun tasg llawn: mae dysgwyr yn cynhyrchu cynllun manwl ar gyfer gweithgaredd peirianegol ymarferol, gan gynnwys:
  - offer, cyfarpar a rhestr Cyfarpar Diogelu Personol (PPE)
  - dull cam wrth gam
  - amserlenni wedi'u hamcangyfrif ar gyfer pob cam.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## DD2.3

Bydd y dysgwr yn gallu torri a siapio deunyddiau'n ddiogel ac yn effeithiol.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 1 (gyda lefel uchel o gefnogaeth):

- gweithgaredd glanhau deunyddiau: mae dysgwyr yn glanhau deunyddiau wedi'u torri ymlaen llaw gan ddefnyddio cadachau a ffeiliau i gael gwared ar faw, olew ac ymylon miniog amlwg dan oruchwyliaeth agos
- tasg farcio syml: mae dysgwyr yn defnyddio pren mesur a marciwr neu ysgrifell i farcio llinellau syth neu siapiau syml ar ddeunydd fflat
- gweithgaredd torri dan arweiniad: mae dysgwyr yn cyflawni tasg torri neu siapio syml (er enghraifft, llifio neu ffeilio â llaw) gan ddilyn cyfarwyddiadau cam wrth gam
- gwiriad glendid: mae dysgwyr yn gwirio eu gwaith yn weledol ac yn glanhau deunyddiau i gael gwared ar faw neu naddion
- gwiriad ffitio: mae dysgwyr yn gwirio gwaith gorffenedig yn erbyn canllaw neu batrymlun syml i gadarnhau ei fod yn agos i'r maint (o fewn goddefiannau ehangach).

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 2 (gyda lefel ganolig o gefnogaeth):

- rhestr wirio paratoi: mae dysgwyr yn dilyn rhestr wirio i gael gwared ar rwd, olew, malurion, ac ymylon miniog cyn mesur a marcio
- marcio fflatiau a bariau: mae dysgwyr yn marcio llinellau syth a nodweddion syml ar ddeunyddiau fflat neu far gan ddefnyddio prennau mesur, sgwariau a sgrifelli
- ymarfer gosod â llaw: mae dysgwyr yn cyflawni tasgau ffeilio neu lifio â llaw i siapio deunyddiau.
- gweithgaredd dadarwhau ymylon: mae dysgwyr yn cael gwared ar ymylon garw gan ddefnyddio ffeiliau neu offer dadarwhau ymylon. Mae dysgwyr yn dad-iro ac yn glanhau gwaith sydd wedi'i gwblhau
- canlyniad mesuredig: mae dysgwyr yn cynhyrchu cydrannau o fewn goddefiannau Lefel Mynediad 2 datganedig gan ddefnyddio riwl ddur i wirio.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 3 (gyda lefel isel o gefnogaeth):

- paratoi annibynnol: mae dysgwyr yn paratoi deunyddiau ar gyfer mesur a marcio, gan ddewis offer priodol i gael gwared ar ymylon garw a chymhwyso cyfrwng mesur a marcio
- marcio deunydd amrywiol: mae dysgwyr yn mesur a marcio nodweddion ar ddeunyddiau fflat, bar a silindrog gan ddefnyddio marcio uniongyrchol a phatrymluniau
- tasg aml-broses: mae dysgwyr yn ffeilio, llifio â llaw, a drilio i siapio cydran
- gwirio ansawdd: mae dysgwyr yn archwilio gwaith am ymylon miniog a glendid ac yn dadarwhau a glanhau yn ôl yr angen
- gwirio mesuredig: mae dysgwyr yn mesur gwaith sydd wedi'i gwblhau gydag offer mesur addas ac yn cadarnhau ei fod yn bodloni goddefiannau penodol Lefel Mynediad 3.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel 1 (i'w gwneud yn annibynnol):

- cynllun paratoi: mae dysgwyr yn cynllunio ac yn cynnal paratoadau llawn o ddeunyddiau yn annibynnol, gan ddewis offer a dulliau addas
- tasg marcio cymhleth: Mae dysgwyr yn marcio deunyddiau fflat, bar a silindrog yn gywir gan ddefnyddio amrywiaeth lawn o offer marcio
- tasg gosod â llaw estynedig: mae dysgwyr yn gwneud gwaith ffeilio, llifio â llaw, drilio, a thorri edafedd i gynhyrchu cydran gywir

© WJEC CBAC Ltd 2026.

- sicrhau ansawdd: mae dysgwyr yn cwblhau gwiriadau terfynol i sicrhau bod gwaith yn lân, yn rhydd o ymylon garw, ac yn ddiogel i'w ddefnyddio
- canlyniad manwl gywir: mae dysgwyr yn cyflawni goddefiannau tynnach ar gyfer tasgau gosod â llaw a llenfetel ac yn gwirio canlyniadau gan ddefnyddio offer mesur addas.

DD2.4

Bydd y dysgwr yn gallu gwirio cywirdeb gwaith.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 1 (gyda lefel uchel o gefnogaeth):

- ymarfer riwl ddur: mae dysgwyr yn defnyddio riwl ddur i fesur hyd neu led cydran syml dan arweiniad tiwtor
- gwiriad siâp a maint: mae dysgwyr yn gwirio gwaith gorffenedig yn weledol ar gyfer siâp a maint cyffredinol yn erbyn canllaw syml
- cofnodi ar daflen ticio: mae dysgwyr yn cofnodi mesuriadau trwy dicio blychau neu roi cylch o amgylch opsiynau ar daflen waith wedi'i pharatoi.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 2 (gyda lefel ganolig o gefnogaeth):

- tasg mesur sylfaenol: mae dysgwyr yn defnyddio riwl ddur i fesur hyd, lled, neu ddiamedr cydran
- gwiriad dimensiwn: mae dysgwyr yn gwirio gwaith wedi'i gwblhau yn erbyn mesuriadau penodol o luniad neu daflen waith syml
- tabl mesur: mae dysgwyr yn cofnodi'r gwerthoedd a fesurwyd mewn tabl penodol.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 3 (gyda lefel isel o gefnogaeth):

- tasg mesur estynedig: mae dysgwyr yn mesur dimensiynau mewnol ac allanol gan ddefnyddio riwl ddur a chaliper fernier. Mae dysgwyr yn defnyddio sgwâr peiriannydd neu fedryddion teimlo i wirio gwastadrwydd neu sgwaredd
- cymharu goddefiannau: mae dysgwyr yn cymharu dimensiynau a fesurwyd â goddefiannau penodol ac yn nodi a yw'r gydran o fewn terfannau
- cofnodi clir: mae dysgwyr yn cofnodi mesuriadau'n daclus gydag unedau a nodiadau. Mae dysgwyr yn awgrymu gwelliannau realistig i offer, dulliau, neu fesur a marcio i wella cywirdeb.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel 1 (i'w gwneud yn annibynnol):

- mesur manwl gywir: mae dysgwyr yn mesur cydrannau yn gywir gan ddefnyddio micromedrau a chaliperau fernier. Mae dysgwyr yn cynnal gwiriadau sgwaredd, gwastadrwydd a bwlch gan ddefnyddio sgwariau peiriannydd a medryddion teimlo
- gwirio goddefiannau: mae dysgwyr yn gwirio'r holl ddimensiynau allweddol yn erbyn goddefiannau penodol ac yn gwneud penderfyniadau llwyddo/methu
- cofnodi proffesiynol: mae dysgwyr yn cyflwyno cofnodion mesur clir, cywir gan ddefnyddio tablau neu daflenni archwilio. Mae dysgwyr yn gwerthuso canlyniadau ac yn cynllunio gwelliannau penodol i dasgau ymarferol yn y dyfodol, megis dewis offer, trefn neu dechneg.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## DD2.5

Bydd y dysgwyr yn gallu cau gweithgareddau peirianegol yn ddiogel.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 1 (gyda lefel uchel o gefnogaeth):

- canfod y broblem: dangosir offer gyda diffygion amlwg (er enghraifft, carn wedi'i ddifrodi, ymyl pŵl) i ddysgwyr ac maen nhw’n nodi a ydyn nhw’n ddiogel neu'n anniogel
- gwiriad diffodd: mae dysgwyr yn dilyn arweiniad y tiwtor i gadarnhau bod offer wedi'u diffodd ar ôl eu defnyddio
- tacluso dan arweiniad: mae dysgwyr yn symud offer oddi ar feinciau a'u rhoi mewn mannau storio wedi'u labelu'n glir.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 2 (gyda lefel ganolig o gefnogaeth):

- rhestr wirio offer: mae dysgwyr yn archwilio offer llaw am ymylon pŵl neu ddifrod gweladwy gan ddefnyddio rhestr wirio syml
- cadarnhad ynysu: mae dysgwyr yn gwirio bod y cyfarpar wedi'u diffodd a'u datgysylltu lle bo'n briodol. Mae dysgwyr yn cadarnhau bod gardiau wedi'u gosod yn iawn ac yn nodi os oes unrhyw beth ar goll
- tasg storio cywir: mae dysgwyr yn storio offer a darnau gwaith mewn lleoliadau dynodedig.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 3 (gyda lefel isel o gefnogaeth):

- trefn archwiliad gweledol: mae dysgwyr yn archwilio offer, cyfarpar a Chyfarpar Diogelu Personol (PPE) am draul, difrod, neu ymylon pŵl
- cadarnhau diogelwch: mae dysgwyr yn cynnal gwiriadau i gadarnhau bod peiriannau wedi'u hynysu ac yn ddiogel i'w gadael. Mae dysgwyr yn gwirio bod gardiau wedi'u gosod yn gywir ac yn weithredol
- cau yn llawn: mae dysgwyr yn symud ac yn storio offer, yn cael gwared ar wastraff yn gywir, ac yn storio darnau gwaith yn ddiogel.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel 1 (i'w gwneud yn annibynnol):

- archwiliad cau: mae dysgwyr yn cynnal archwiliad strwythuredig o offer, cyfarpar a Chyfarpar Diogelu Personol (PPE) gan ddefnyddio rhestr wirio archwilio
- ynysu a gardiau:
  - gwiriadau ynysu diogel: mae dysgwyr yn cadarnhau bod y cyfarpar wedi'u hynysu yn dilyn gweithdrefnau'r gweithdy. Mae dysgwyr yn cadarnhau bod gardiau’n bresennol, wedi'u gosod yn gywir, ac yn weithredol
  - cau wedi'i gynllunio: mae dysgwyr yn cynllunio ac yn cynnal adferiad llawn o'r gweithle. Mae dysgwyr yn cyflwyno adroddiad ysgrifenedig clir o ddiffygion neu ddifrod a ganfuwyd, gan gynnwys camau gweithredu a argymhellir.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

Datblygu Portffolio o Dystiolaeth – Uned 2 (DD1–DD5)

Bydd dysgwyr yn creu portffolio o dystiolaeth ar draws Uned 2 trwy gwblhau cyfres o dasgau peirianegol ymarferol integredig. Dylid casglu tystiolaeth yn naturiol trwy weithgareddau gweithdy a gellir ategu hyn gydag arsylwadau'r aseswr ac adfyfyriad y dysgwr.

## DD2.1

Bydd y dysgwr yn gallu dehongli gwybodaeth beirianegol o luniadau a siartiau.

Gall dysgwyr ddangos tystiolaeth o DD1 trwy weithio o luniadau a siartiau peirianegol syml i rai fwy cymhleth. Gallai'r dystiolaeth gynnwys:

- lluniadau peirianegol anodedig sy'n amlygu onglau, diamedrau, radiysau dimensiynau, meintiau edafedd neu oddefiannau
- taflenni gwaith wedi'u cwblhau sy'n dangos dehongli gwybodaeth lluniadau
- brasluniau syml, lluniadau isometrig, neu olygon orthograffig wedi'u cynhyrchu gan y dysgwr
- cofnodion arsylwi'r aseswr sy'n cadarnhau dehongli cywir yn ystod tasgau ymarferol
- ffotograffau o luniadau wedi'u marcio a ddefnyddiwyd i gyflawni tasgau.

## DD2.2

Bydd y dysgwr yn gallu cynllunio gweithgareddau peirianegol ymarferol yn ddiogel ac effeithlon.

Mae dysgwyr yn datblygu tystiolaeth trwy gynllunio a pharatoi ar gyfer gweithgareddau ymarferol. Gallai'r dystiolaeth gynnwys:

- asesiadau risg wedi'u cwblhau (templedi wedi'u darparu neu wedi'u haddasu yn dibynnu ar y lefel)
- Rhestri gwirio dewis Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) sy'n gysylltiedig â thasgau penodol
- cynlluniau o'r tasgau cam wrth gam sy'n dangos trefn ac ystyriaethau amser
- rhestri o offer, cyfarpar a Chyfarpar Diogelu Personol (PPE) sydd eu hangen
- cofnodion arsylwi'r aseswr sy'n cadarnhau arferion gweithio diogel
- adfyfyriadau'r dysgwr ar sut roedd mesurau diogelwch wedi'u cymhwyso yn ystod tasgau.

## DD2.3

Bydd y dysgwr yn gallu torri a siapio deunyddiau'n ddiogel ac yn effeithiol.

Mae tystiolaeth ar gyfer DD3 yn cael ei chynhyrchu trwy waith ymarferol yn y gweithdy. Gallai'r dystiolaeth gynnwys:

- ffotograffau o gamau paratoi, mesur a marcio, torri a siapio deunydd
- deunyddiau wedi'u mesur a marcio sy'n dangos defnydd cywir o offer a thechnegau
- cydrannau wedi'u cwblhau sy'n dangos torri, siapio a gorffennu
- cofnodion arsylwi'r aseswr sy'n cadarnhau defnydd cywir o offer a gweithio'n ddiogel
- cofnodion mesur sy'n dangos goddefiannau wedi'u cyflawni
- adfyfyriadau'r dysgwr ar yr hyn oedd yn dda a'r hyn y gellid gwella.

© WJEC CBAC Ltd 2026.

### DD2.4

Bydd y dysgwr yn gallu gwirio cywirdeb gwaith.

Mae'r dysgwr yn dangos tystiolaeth o DD4 trwy fesur gwaith a gwblhawyd ac adolygu ei gywirdeb. Gallai'r dystiolaeth gynnwys:

- cofnodion mesur gan ddefnyddio riwliau dur, caliperau fernier, micromedrau, neu sgwariau
- taflenni gwirio goddefiannau sy'n cymharu dimensiynau gwirioneddol â dimensiynau gofynnol
- ffotograffau anodedig sy'n dangos mesuriadau'n cael eu cymryd
- adborth ysgrifenedig neu lafar sy'n nodi gwallau a chyfleoedd i wella
- arsylwadau'r aseswr sy'n cadarnhau'r defnydd cywir o gyfarpar mesur.

### DD2.5

Bydd y dysgwr yn gallu cau gweithgareddau peirianegol yn ddiogel.

Mae dysgwyr yn casglu tystiolaeth trwy weithgareddau cau diogel ac adfer y gweithle. Gallai'r dystiolaeth gynnwys:

- cau wedi'i gwblhau neu restrau gwirio archwilio ar gyfer offer, cyfarpar a Chyfarpar Diogelu Personol (PPE)
- ffotograffau o weithleoedd wedi'u hadfer yn gywir
- adroddiadau am ddiffygion ar gyfer offer neu gyfarpar sydd wedi'u difrodi
- cofnodion arsylwi'r aseswr o wiriadau ynysu a gweithdrefnau tacluso.

## Cyfleoedd ar gyfer integreiddio profiadau dysgu sy'n ymwneud â'r byd gwaith

Mae'r uned hon yn creu cyfleoedd i ddatblygu'r profiadau dysgu canlynol (ni fydd profiadau yn cael eu hasesu'n uniongyrchol):

- rhyngweithio â siaradwyr gwadd o'r sector Peirianneg i gael mewnwelediad o lygad y ffynnon i arferion a disgwyliadau'r byd go iawn
- gofyn cwestiynau a thrafod tueddiadau, heriau ac arloesiadau cyfredol yn y sector gyda gweithwyr proffesiynol o'r diwydiant
- dysgu am wahanol lwybrau gyrfa, llwybrau hyfforddi, a chymwysterau yn uniongyrchol gan gyflogwyr a darparwyr hyfforddiant yn y maes Peirianneg
- datblygu sgiliau rhwydweithio drwy ymgysylltu â gweithwyr Peirianneg
- ymweld ag adeiladau, datblygiadau neu safleoedd lleol neu fynychu digwyddiadau i ddeall y sector Peirianneg o lygad y ffynnon
- meithrin ysbrydoliaeth a chymhelliant o glywed teithiau gyrfa personol ac am lwyddiannau.

Bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran y cyfleoedd y mae'r cymhwyster yn eu cynnig i athrawon/canolfannau i integreiddio'r profiadau a'r sgiliau dysgu hyn wrth ei gyflwyno.

Gweler Atodiad A am gyfleoedd i ddatblygu themâu trawsbynciol, sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol. Mae mwy o wybodaeth wedi'i chynnwys yn y Canllawiau Addysgu.

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# 3. Asesu

Asesir y cymhwyster hwn trwy bortffolio o dystiolaeth sy'n cael ei asesu'n fewnol ac mae'r ansawdd yna'n cael ei sicrhau'n allanol trwy broses o gymedroli allanol. Mae gwybodaeth am y broses gymedroli i'w gweld yn y ddogfen *Asesu Mewnol: Canllaw i ganolfannau*, y gellir ei weld yn adran weinyddu gwefan CBAC.

Dim ond ar ôl cwblhau'r addysgu a'r dysgu perthnasol y dylid cynnal yr asesu. Rhaid i ganolfannau sicrhau nad yw ymgeiswyr yn cael eu hasesu'n barhaus neu'n gynamserol.

## 3.1. Tasgau asesu

Mae gan athrawon yr hyblygrwydd i ddylunio tasgau a gweithgareddau asesu sy'n bodloni anghenion eu dysgwyr orau. Mae'r dull hwn yn galluogi asesiadau wedi'u teilwra i ddiddordebau, galluoedd a chyd-destun pob grŵp dysgwyr. Mae hefyd yn caniatáu i athrawon fod yn greadigol ac i gynnig amrywiaeth o gyfleoedd i ddysgwyr ddangos eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth.

Rhaid i dasgau asesu alluogi dysgwyr i fodloni pob maen prawf asesu ar gyfer yr uned ar y lefel sy'n briodol i'w perfformiad. Mae pob maen prawf asesu wedi'i strwythuro ar draws pedair lefel, o Fynediad 1 i Lefel 1, a gall cyflawniad dysgwr amrywio ar draws gwahanol dasgau o fewn yr un uned. Mae'r dull hwn yn cydnabod cynnydd ym mhob cam ac yn gwerthfawrogi cyflawniad, datblygu sgiliau, a thwf yr unigolyn.

Er mwyn cefnogi canolfannau i ddylunio asesiadau addas, darperir tasgau enghreifftiol ar ôl pob uned o fewn y fanyleb hon. Er bod enghreifftiau wedi'u cyflwyno ar gyfer pob deilliant dysgu unigol, gall athrawon ddyfeisio tasgau sy'n canolbwyntio ar nifer o ddeilliannau dysgu, ar yr amod eu bod yn galluogi dysgwyr i ddangos eu bod wedi cyflawni'r holl feini prawf asesu perthnasol ar y lefel sy'n briodol i'w perfformiad.

## 3.2. Hyd yr asesiad

Rhaid i ganolfannau sicrhau nad yw gweithgareddau asesu yn hirach na'r uchafswm hyd a nodir yn y crynodeb o'r uned ar gyfer pob uned. Bwriad hyn yw cefnogi cymharu ar draws canolfannau tra'n caniatáu addasiadau rhesymol yn seiliedig ar anghenion dysgwyr a natur tasgau a ddyfeisiwyd gan ganolfannau.

Ar gyfer y rhan fwyaf o ddysgwyr, dylai gweithgareddau asesu fel arfer fod o fewn yr amser dangosol ar gyfer pob uned, er y gellir defnyddio cyfnodau byrrach lle bo hynny'n briodol, yn enwedig ar gyfer dysgwyr Lefel Mynediad. Ni ddylid trin yr amrediad fel lleiafswm, a rhaid i ganolfannau osgoi gorasesu.

Rhaid i ganolfannau gofnodi'r amser bras a dreulir ar weithgareddau asesu ar gyfer pob dysgwr a phob uned. Rhaid cadw'r cofnodion hyn at ddibenion cymedroli a sicrhau ansawdd.

© WJEC CBAC Ltd 2026.

DRAFT

## 3.3. Gofynion tystiolaeth

Gall dysgwyr ddangos eu bod wedi bodloni'r meini prawf asesu drwy amrywiaeth o fathau o dystiolaeth, gan gynnwys:

- arsylwadau’r athro/athrawes – arsylwi'r dysgwr yn uniongyrchol yn cyflawni tasg neu weithgaredd
- aseiniadau neu dasgau ysgrifenedig – ymatebion ysgrifenedig strwythuredig i dasgau gosod, sy'n briodol i lefel y dysgwr
- allbynnau creadigol – gwaith celf, modelau, cyfryngau digidol neu gynhyrchion creadigol eraill sy'n dangos sgiliau cymhwysol
- tystiolaeth gwaith grŵp – cyfraniadau at dasgau grŵp, wedi'u cefnogi gan nodiadau arsylwi neu waith adfyfyrio'r dysgwr
- datganiad y dysgwr – cofnod ysgrifenedig neu wedi'i recordio gan y dysgwr yn adfyfyrio ar yr hyn a wnaeth a'r hyn a ddysgodd.
- asesiad gan gyfoed neu hunanasesiad – cyfleoedd strwythuredig i ddysgwyr werthuso eu gwaith eu hunain neu waith eraill (gydag arweiniad)
- tystiolaeth ffotograffig – lluniau sy'n dangos gwaith y dysgwr neu ei gyfranogiad mewn gweithgaredd, gan roi'r cyd-destun
- llyfrau gwaith ymarferol neu lyfrau log – cofnodion o weithgareddau a gwblhawyd dros amser, gan gynnwys adfyfyrio ac adborth
- gwaith project - tasgau estynedig neu ymchwiliadau sy'n dangos cynllunio, gweithredu ac adolygu
- gweithgareddau efelychiadol - tasgau a gyflawnwyd mewn amgylchedd wedi'i reoli sy'n ailadrodd senarios y byd go iawn
- yr athro/athrawes/aseswr yn holi – ymatebion i gwestiynau strwythuredig, naill wedi'u hysgrifennu neu ar lafar, i gadarnhau dealltwriaeth
- recordiadau fideo/sain – recordiadau o'r dysgwr yn cyflawni tasg, yn rhoi cyflwyniad, neu'n cymryd rhan mewn trafodaeth
- tystiolaeth tystion – datganiadau gan athrawon, staff cefnogi, neu eraill sydd wedi arsylwi perfformiad y dysgwr.

Dylid casglu tystiolaeth dysgwyr ar gyfer pob uned mewn portffolio ar gyfer asesu mewnol a chymedroli allanol. Mae'r term 'portffolio' yn cyfeirio at gasgliad strwythuredig o dystiolaeth.

Rhaid cynnwys Cofnod Asesu'r Dysgwr wedi'i gwblhau gyda'r portffolio. Bydd hwn ar gael ar dudalen cymwysterau gwefan CBAC (bydd cyswlljt yn cael ei hychwanegu pan fydd y dudalen ar gael). Rhaid defnyddio Cofnod Asesu'r Dysgwr i gofnodi:

- y gweithgareddau asesu y mae'r dysgwr wedi'u cwblhau (yr hyn maen nhw wedi'i wneud)
- lle mae'r dystiolaeth wedi'i lleoli
- sylwadau'r athro/athrawes
- lefel y cefnogaeth a'r arweiniad y mae'r dysgwr wedi'i derbyn
- cyfanswm yr amser yn fras y mae'r dysgwr wedi'i dreulio ar asesiad
- pa feini prawf asesu y mae'r dysgwr wedi'u bodloni
- y radd a ddyfarnwyd a chyfanswm nifer y meini prawf asesu a gyflawnwyd ar lefel y radd a ddyfarnwyd neu'n uwch na hynny.

Rhaid cyfeirio'r holl dystiolaeth yn glir at y meini prawf asesu perthnasol. Rhaid cyflwyno'r holl dystiolaeth yn ddigidol. Pan fydd dysgwyr yn cynhyrchu gwaith ar bapur neu dystiolaeth ffisegol, dylid sganio, tynnu lluniau neu ffilmio'r rhain fel bod modd cyflwyno fersiwn ddigidol glir. Gellir dod o hyd i wybodaeth am y broses gyflwyno yn y ddogfen e-gyflwyno: IAMIS (System Mewnbynnu Marciau Asesiad Mewnol) Uwchlwytho – Canllawiau Pynciol, y ceir mynediad ati o adran weinyddu gwefan CBAC.

© WJEC CBAC Ltd 2026.

DRAFT

## 3.4. Cefnogaeth ac arweiniad

Dylai athrawon gefnogi dysgwyr wrth iddyn nhw adeiladu eu portffolio. Dylai’r gefnogaeth adlewyrchu lefel gweithio'r dysgwr:

- Bydd angen lefel uchel o gefnogaeth ar ddysgwyr Mynediad 1 , gan gynnwys cymorth llafar, gweledol ac ymarferol, defnyddio symbolau, neu dechnoleg gynorthwyol. Dylai tasgau a chasglu tystiolaeth fod yn strwythuredig iawn i alluogi cyfranogi a chyflawni ystyrlon trwy ymgysylltiad cefnogol.
- Dylai dysgwyr Mynediad 2 ddangos annibyniaeth gynyddol amlwg ond efallai y bydd angen promptiau, cwestiynu dan arweiniad neu dempledi sgaffald arnyn nhw i gynllunio, trefnu ac adfyfyrio ar eu gwaith.
- Disgwylir i ddysgwyr Mynediad 3 weithio gyda chefnogaeth isel, lle bydd angen arweiniad achlysurol yn unig i gadarnhau dealltwriaeth neu adolygu cynnydd.
- Dylai dysgwyr Lefel 1 weithio'n annibynnol ond parhau i dderbyn y cefnogaeth sydd ei angen arnyn nhw i lwyddo. Gall athrawon a thiwtoriaid roi cyngor ar gynllunio a strwythuro eu hatebion, ac ar sut i ddod o hyd i wybodaeth a chyflwyno tystiolaeth, lle bo hynny'n briodol. Gall cefnogaeth hefyd gynnwys egluro cyfarwyddiadau, annog adfyfyrio neu helpu dysgwyr i nodi'r camau nesaf, heb gwblhau'r gwaith ar ran y dysgwr.

Mae'r model graddedig hwn o gefnogaeth yn sicrhau bod dysgwyr yn datblygu annibyniaeth, hyder a sgiliau wrth iddyn nhw symud ymlaen trwy'r lefelau.

## 3.5. Goruchwylio a dilysu

Rhaid i ddysgwyr gael eu goruchwylio gan athro/athrawes wrth gwblhau gweithgareddau asesu. Gall athrawon egluro gofynion tasgau ond rhaid iddyn nhw beidio â rhoi adborth ar y dystiolaeth sy'n cael ei chynhyrchu. Rhaid i ddysgwyr ac athrawon lofnodi datganiadau sy'n cadarnhau dilysrwydd y gwaith a gyflwynwyd.

Cydweithio: Caniateir gwaith grŵp dim ond pan fydd hyn wedi'i nodi. Rhaid bod modd nodi'n glir gyfraniadau unigol a rhaid eu hasesu'n annibynnol i sicrhau tegwch. Rhaid i ddysgwyr ddarparu ymatebion unigol, a rhaid bod modd priodoli tystiolaeth i bob dysgwr. Rhaid i'r taflenni dilysu gael eu llofnodi gan yr athro/athrawes a'r dysgwr.

## 3.6. Marcio (dyfarniadau asesu)

Er mwyn sicrhau cysondeb a dibynadwyedd wrth asesu, rhaid i'r holl farcio gael ei wneud gan athro/athrawes neu aseswr dynodedig gydag arbenigedd pwnc priodol.

Rhaid i athrawon ac aseswyr sicrhau'r canlynol:

- gwneir dyfarniadau yn erbyn y meini prawf asesu yn unig, nid yn seiliedig ar argraffiadau cyffredinol neu ymdrech y dysgwr
- mae tystiolaeth ysgrifenedig wedi'i hanodi'n glir i ddangos sut mae'n bodloni meini prawf penodol
- mae tystiolaeth perfformiad (er enghraifft, cyflwyniadau neu arddangosiadau ymarferol) yn cael ei dogfennu gan ddefnyddio cofnodion arsylwi sy'n cynnwys sylwadau disgrifiadol a chrynodol, gan nodi'n glir pa feini prawf sydd wedi'u bodloni ac ar ba lefel
- mae'r holl dystiolaeth yn ddilys, wedi'i hanodi'n glir, ac wedi'i chofnodi'n gywir, gyda digon o fanylion i gefnogi penderfyniadau asesu
- Os defnyddir cofnodion arsylwi, rhaid iddyn nhw gynnwys digon o fanylion i gyfiawnhau'r radd a ddyfarnwyd.

© WJEC CBAC Ltd 2026.

Cefnogir pob deilliant dysgu gan bedwar band perfformiad gwahanol o feini prawf asesu, wedi'u cynllunio i adlewyrchu sbectrwm eang o alluoedd dysgwr. Cydnabyddir y gall perfformiad dysgwr amrywio ar draws deilliannau dysgu gwahanol o fewn yr un uned. Mae'n rhaid i'r dystiolaeth a gyflwynir gan ymgeiswyr gyd-fynd â'r disgwyliadau sydd wedi'u nodi yn y pecyn asesu.

Pan fydd perfformiad yn cael ei arsylwi gan rywun heblaw am yr athro/athrawes, rhaid cwblhau datganiad tyst. Mae'r athro/athrawes yn gyfrifol am ddilysu'r datganiad drwy graffu ar dystiolaeth ategol a/neu holi'r dysgwr neu'r tyst. Gall datganiadau tyst dilysu gyfrannu at y dystiolaeth asesu gyffredinol, a rhaid cynnwys dogfennaeth ddilysu.

Darperir pro forma safonedig ar gyfer cofnodion arsylwi a thystion. Dylid rhoi copi o'r pro forma i ddysgwyr ymlaen llaw i gefnogi tryloywder a chysondeb.

## 3.7. Ailgyflwyno tystiolaeth cyn cymedroli

Gall athrawon ganiatáu un cyfle i ddysgwr wella ei dystiolaeth a'i hailgyflwyno i'w hailasesu cyn cyflwyno'r penderfyniad terfynol i'w gymedroli. Ailgyflwyno yw'r enw ar y broses hon.

Gall ymgeiswyr ailgyflwyno er mwyn:

- mynd i'r afael â hepgoriadau neu dystiolaeth anghyflawn ar gyfer y lefel bresennol
- ceisio cyflawni meini prawf asesu ychwanegol neu lefel uwch (er enghraifft, symud ymlaen o Fynediad 2 i Fynediad 3 neu Lefel 1).

Rhaid trefnu'r asesiad mewnol i ganiatáu digon o amser ar gyfer ailgyflwyno, lle bo angen, cyn y cymedroli allanol.

Rhaid i unrhyw adborth a roddir i ymgeiswyr:

- fod yn ffeithiol, ac yn seiliedig ar yr hyn a welwyd yn eu gwaith.
- nodi pa feini prawf asesu nad ydyn nhw wedi'u bodloni a/neu gadarnhau'r lefel a gyflawnwyd ar hyn o bryd
- osgoi rhoi cyfarwyddiadau penodol ar sut i fodloni meini prawf lefel uwch
- gael ei ddogfennu a'i ddarparu i'w gymedroli'n allanol os gofynnir am hynny.

Rhaid i athrawon beidio â:

- chaniatáu sawl ailgyflwyniad ar sail mân newidiadau yn dilyn adborth
- caniatáu i ddysgwyr ychwanegu, newid, neu ddileu unrhyw waith ar ôl i'r ailgyflwyniad gael ei asesu.

Nid yw'n ofynnol i ymgeiswyr gynhyrchu set hollol newydd o dystiolaeth. Dylent ganolbwyntio'n unig ar y meysydd lle eu nod yw gwella neu symud ymlaen.

Ni ddylai'r amser a ganiateir ar gyfer ailgyflwyno fod yn fwy na chyfanswm yr amser a roddir ar gyfer cynhyrchu tystiolaeth gychwynnol.

Dylai canolfannau gadw cofnodion mewnol o ailgyflwyniadau i ddarparu llwybr archwilio clir, gan gynnwys lefel gwreiddiol y dysgwr ac unrhyw ailgyflwyniad. Dim ond y dystiolaeth a'r penderfyniadau asesu terfynol sydd angen eu cyflwyno ar gyfer cymedroli allanol.

Ar ôl cyflwyno'r penderfyniadau asesu i'w cymedroli, ni ellir gwneud unrhyw newidiadau pellach i'r dystiolaeth. Un cyfle sydd ar gael i ymgeiswyr i ailsefyll  asesiad yng nghyfresi asesu'r dyfodol (gweler adran 4.5).

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## 3.8. Camymddwyn

Cyn dechrau'r cwrs, cyfrifoldeb athrawon yw rhoi gwybod i ymgeiswyr am reoliadau CBAC ynglŷn â chamymddwyn. Rhaid i ymgeiswyr beidio ag ymddwyn yn annheg mewn unrhyw ffordd wrth baratoi gwaith ar gyfer eu Cymhwyster Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith.

Ceir gwybodaeth am gamymddwyn yn ein Canllaw i atal, adrodd am ac ymchwilio i gamymddwyn.

Rhaid rhoi gwybod i CBAC ar unwaith am bob achos o gamymddwyn posibl neu gamymddwyn gwirioneddol (camymddwyn@cbac.co.uk). Os bydd ymgeiswyr yn camymddwyn, mae'n bosibl y cânt eu cosbi neu eu diarddel o'r arholiadau.

Ym mhob achos o gamymddwyn, cynghorir canolfannau i ddilyn cyngor llyfryn y CGC Amau Camymddwyn: Polisïau a Gweithdrefnau.

DRAFFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# 4. Gwybodaeth dechnegol

## 4.1. Cofrestru ar gyfer unedau

Cymhwyster unedol yw hwn. Caiff ymgeiswyr eu cofrestru ar gyfer pob uned ar wahân.

Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod haf bob blwyddyn, tan ddiwedd oes y cymhwyster.

Bydd cymedroli allanol ar gyfer Uned 1 ar gael am y tro cyntaf yn haf 2028 (ac ym mhob cyfres mis Ionawr a chyfres yr haf wedi hynny).

Bydd cymedroli allanol ar gyfer Uned 2 ar gael am y tro cyntaf yn haf 2029 ac ym mhob cyfres mis Ionawr a chyfres yr haf wedi hynny.

Rhaid cofrestru am unedau unigol drwy gyflwyno'r uned berthnasol sydd i'w gweld isod:

| Uned | | Codau Cofrestru | |
|---|---|---|---|
| | | **Cyfrwng Saesneg** | **Cyfrwng Cymraeg** |
| Uned 1 | Cyflwyniad i Beirianneg | i'w gadarnhau | i'w gadarnhau |
| Uned 2 | Cynhyrchu Cynnyrch | i'w gadarnhau | i'w gadarnhau |

Os cofrestrwyd ymgeisydd am uned ond ei fod yn absennol ar gyfer yr uned honno, nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais.

## 4.2. Cofrestru ar gyfer y cymhwyster

Bydd y cymhwyster yn cael ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn haf 2029.

Caiff ymgeiswyr eu cofrestru ar gyfer y cymhwyster drwy’r broses agregu (cyfnewid).

Nid yw'r broses agregu'n digwydd yn awtomatig; rhaid nodi'r cod perthnasol er mwyn agregu.

| | Cyfrwng Saesneg | Cyfrwng Cymraeg |
|---|---|---|
| Cod cyfnewid | i'w gadarnhau | i'w gadarnhau |

Mae rhifyn cyfredol ein dogfen Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau yn rhoi'r dulliau cofrestru diweddaraf.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## 4.3. Graddio

Bydd Cymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith yn cael eu dyfarnu ar raddfa bedwar pwynt.

Bydd Cymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith yn cael eu dyfarnu ar raddfa bedwar pwynt Mynediad 1 i Lefel 1, a Lefel 1 yw'r radd uchaf.

### Graddau unedau

Dyfarnir gradd grynodol i ymgeiswyr ar gyfer pob uned yn seiliedig ar gyfanswm y pwyntiau y mae'r dysgwr wedi'i ennill yn yr uned honno.

Dyrennir **1** pwynt i bob maen prawf Mynediad 1, dyrennir **2** bwynt i bob maen prawf Mynediad 2, dyrennir **3** phwynt i bob maen prawf Mynediad 3 a dyrennir **4** pwynt i bob maen prawf Lefel 1.

Er mwyn cyflawni Mynediad 1, rhaid i'r ymgeisydd ennill 20% o'r pwyntiau sydd ar gael ar gyfer yr uned.

Er mwyn cyflawni Mynediad 2, rhaid i'r ymgeisydd ennill 40% o'r pwyntiau sydd ar gael ar gyfer yr uned.

Er mwyn cyflawni Mynediad 3, rhaid i'r ymgeisydd ennill 60% o'r pwyntiau sydd ar gael ar gyfer yr uned.

Er mwyn cyflawni Lefel 1, rhaid i'r ymgeisydd ennill 80% o'r pwyntiau sydd ar gael ar gyfer yr uned.

Mae'r tabl isod yn dangos isafswm nifer y pwyntiau ar gyfer pob gradd uned y mae'n rhaid i ymgeisydd ei ennill i gael y radd uned honno wedi'i dyfarnu iddyn nhw.

| | Uchafswm pwyntiau | M1 | M2 | M3 | L1 |
|---|---|---|---|---|---|
| Uned 1 | 48 | 10 | 19 | 29 | 38 |
| Uned 2 | 64 | 13 | 26 | 38 | 51 |

Os nad yw ymgeiswyr yn ennill isafswm nifer y pwyntiau i gael Mynediad 1 wedi'i ddyfarnu iddyn nhw, cofnodir eu cyrhaeddiad fel annosbarthedig (U).

Gradd y cymhwyster

Bydd gradd y cymhwyster yn seiliedig ar gyfanswm y pwyntiau y mae'r ymgeisydd yn ei ennill ar draws y ddwy uned.

Er mwyn cyflawni Mynediad 1, rhaid i'r ymgeisydd ennill 20% o gyfanswm y pwyntiau sydd ar gael.

Er mwyn cyflawni Mynediad 2, rhaid i'r ymgeisydd ennill 40% o gyfanswm y pwyntiau sydd ar gael.

Er mwyn cyflawni Mynediad 3, rhaid i'r ymgeisydd ennill 60% o gyfanswm y pwyntiau sydd ar gael.

© WJEC CBAC Ltd 2026.

DRAFT

Er mwyn cyflawni Lefel 1, rhaid i'r ymgeisydd ennill 80% o gyfanswm y pwyntiau sydd ar gael.

Mae'r tabl isod yn dangos isafswm nifer y pwyntiau ar gyfer pob gradd uned y mae'n rhaid i ymgeisydd ei ennill i gael y radd uned honno wedi'i dyfarnu iddyn nhw.

| | Uchafswm pwyntiau | M1 | M2 | M3 | L1 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymhwyster | 112 | 22 | 45 | 67 | 90 |

Os nad yw ymgeiswyr yn ennill y nifer gofynnol o bwyntiau i gyflawni Llwyddiant Mynediad 1 yna cofnodir eu cyrhaeddiad fel U (annosbarthedig) ac ni fyddant yn derbyn tystysgrif.

## 4.4. Ailsefyll asesiadau ar ôl cymedroli allanol

Gall ymgeiswyr ailsefyll pob uned unwaith (dau gynnig i gyd). Defnyddir y radd uchaf a enillir ar draws y ddau gynnig wrth bennu'r canlyniad terfynol ar gyfer y cymhwyster.

Pan fydd ymgeiswyr yn ailsefyll:

- gall ymgeiswyr ailgyflwyno gwaith a gyflwynwyd yn flaenorol. Rhaid i ymgeiswyr ac athrawon sicrhau bod modd adnabod tystiolaeth newydd a/neu ddiwygiedig yn glir
- os bydd ymgeisydd wedi'i gofrestru ar gyfer asesiad ond ei fod yn absennol, nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais
- os cyflwynodd ymgeisydd dystiolaeth ond nad oedd yn bodloni unrhyw feini prawf asesu, bydd hyn yn cyfrif fel ymgais
- pan fydd y cymhwyster yn cynnwys mwy nag un uned, bydd tystiolaeth a phenderfyniadau o unedau eraill yn cael eu dwyn ymlaen, ar yr amod nad yw nifer cynigion y dysgwr yn fwy nag uchafswm a ganiateir ar gyfer unrhyw uned
- os bydd ymgeisydd yn mynd dros nifer y cynigion a ganiateir ar gyfer unrhyw uned, yna bydd gofyn iddyn nhw ailwneud y cymhwyster yn ei gyfanrwydd.

## 4.5. Ailwneud y cymhwyster

Os bydd ymgeisydd yn cofrestru ar gyfer uned am y trydydd tro, rhaid iddyn nhw ailgofrestru, ac ailwneud, pob uned.

Rhaid i'r ymgeisydd gynhyrchu portffolio newydd o dystiolaeth. Ni all ymgeiswyr wella gwaith a gyflwynwyd yn flaenorol; rhaid i'r holl dystiolaeth gael ei chynhyrchu o'r newydd ar gyfer yr ailsefyll. Os gwnaeth canolfannau gynhyrchu cyd-destun ar gyfer asesiad, dylid defnyddio cyd-destun newydd.

Pan fydd ymgeisydd yn ailsefyll cymhwyster, gall roi hyd at ddau gynnig ar bob uned. Ni ellir defnyddio canlyniadau o unedau a safwyd cyn ailsefyll wrth agregu'r radd (graddau) newydd.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## Atodiad A: Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru

Mae'r tabl isod yn dangos ble mae'r cymhwyster yn cynnig cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru. Mae gwybodaeth fanylach wedi'i chynnwys yn y Canllawiau Addysgu: Canllawiau Cyflwyno'r Unedau.

| Llinynnau Cwricwlwm i Gymru | Uned 1 | Uned 2 |
|---|---|---|
| Themâu trawsbynciol | | |
| Cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol | 1.1.2, 1.1.3, 1.2.3 | |
| Cynaliadwyedd | 1.1.1, 1.2.3, 1.4.1, | |
| Addysg cydberthynas a rhywioldeb | 1.1.3, 1.2.2, 1.2.3, 1.3.1, 1.3.2, | |
| Addysg hawliau dynol | 1.1.1, 1.1.3, 1.2.3, 1.3.1, 1.3.2, 1.4.1, 1.4.2, 1.4.3, 1.4.4 | |
| Gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â byd gwaith | 1.2.1, 1.2.2, 1.2.3, 1.4.1, 1.4.2, 1.4.3, 1.4.4 | |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| Sgiliau trawsgwricwlaidd – Llythrennedd | | |
|---|---|---|
| Gwrando | 1.1.1, 1.1.2, 1.1.3, 1.2.1, 1.2.2, 1.2.3, 1.3.1, 1.3.2, 1.4.1, 1.4.2, 1.4.3, 1.4.4 | |
| Darllen | 1.1.1, 1.1.2, 1.1.3, 1.2.1, 1.2.2, 1.2.3, 1.3.1, 1.3.2, 1.4.1, 1.4.2, 1.4.3, 1.4.4 | 2.1.1, 2.1.2, 2.1.3, 2.2.1, 2.2.2, 2.3.1, 2.3.2, 2.3.3. 2.3.4, 2.3.5, 2.3.5, 2.4.1,2.4.2, 2.4.3, 2.5.1, 2.5.2, 2.5.3 |
| Siarad | 1.1.1, 1.1.2, 1.1.3, 1.2.1, 1.2.2, 1.2.3, 1.3.1, 1.3.2, 1.4.1, 1.4.2, 1.4.3, 1.4.4 | 2.1.1, 2.1.2, 2.1.3, 2.2.1, 2.4.3 |
| Ysgrifennu | 1.1.1, 1.1.2, 1.1.3, 1.2.1, 1.2.2, 1.2.3, 1.3.1, 1.3.2, 1.4.1, 1.4.2, 1.4.3, 1.4.4 | 2.2.1, 2.4.3 |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| **Llinynnau Cwricwlwm i Gymru** | **Uned 1** | **Uned 2** |
|---|---|---|
| Sgiliau trawsgwricwlaidd - Rhifedd | | |
| Datblygu hyfedredd mathemategol | 1.3.1, 1.3.2, | 2.1.1, 2.1.2, 2.1.3, 2.3.2, 2.3.3, 2.3.5, 2.4.1,2.4.2, 2.4.3 |
| Mae deall y system rifau yn ein helpu ni i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau | 1.3.1, 1.3.2, | 2.1.1, 2.1.2, 2.1.3, 2.3.2, 2.3.3, 2.3.5, 2.4.1,2.4.2, 2.4.3 |
| Mae dysgu am geometreg yn ein helpu ni i ddeall siâp, gofod a safle, ac mae dysgu am fesur yn ein helpu i feintioli yn y byd go iawn | 1.3.1, 1.3.2, | 2.1.1, 2.1.2, 2.1.3, 2.3.2, 2.3.3, 2.3.5, 2.4.1,2.4.2, 2.4.3 |
| Mae dysgu bod ystadegau yn cynrychioli data a bod tebygolrwydd yn modelu siawns yn ein helpu ni i wneud casgliadau a phenderfyniadau ar sail gwybodaeth | 1.3.1, 1.3.2, | 2.1.1, 2.1.2, 2.1.3, 2.3.2, 2.3.3, 2.3.5, 2.4.1,2.4.2, 2.4.3 |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| | | |
|---|---|---|
| Cymhwysedd Digidol | | |
| Dinasyddiaeth | | |
| Rhyngweithio a chydweithio | | 2.2.1, 2.4.3 |
| Cynhyrchu | | 2.2.1, 2.4.3 |
| Data a meddwl cyfrifiannol | 1.3.1, 1.3.2, | 2.1.1, 2.1.2, 2.1.3, 2.2.1, 2.2.2, 2.3.1, 2.3.2, 2.3.3. 2.3.4, 2.3.5, 2.3.5, 2.4.1,2.4.2, 2.4.3, 2.5.1, 2.5.2, 2.5.3 |
| **Llinynnau Cwricwlwm i Gymru** | **Uned 1** | **Uned 2** |
| Sgiliau Cyfannol | | |
| Creadigrwydd ac arloesi | 1.1.1, 1.1.2, 1.1.3, 1.2.1, 1.2.2, 1.2.3, 1.3.1, 1.3.2, 1.4.1, 1.4.2, 1.4.3, 1.4.4 | 2.1.1, 2.1.2, 2.1.3, 2.2.1, 2.2.2, 2.3.1, 2.3.2, 2.3.3. 2.3.4, 2.3.5, 2.3.5, 2.4.1,2.4.2, 2.4.3, 2.5.1, 2.5.2, 2.5.3 |
| Meddwl yn feirniadol a datrys problemau | 1.1.1, 1.1.2, 1.1.3, 1.2.1, 1.2.2, 1.2.3, 1.3.1, 1.3.2, 1.4.1, 1.4.2, 1.4.3, 1.4.4 | 2.1.1, 2.1.2, 2.1.3, 2.2.1, 2.2.2, 2.3.1, 2.3.2, 2.3.3. 2.3.4, 2.3.5, 2.3.5, 2.4.1,2.4.2, 2.4.3, 2.5.1, 2.5.2, 2.5.3 |
| Cynllunio a threfnu | 1.2.1, 1.2.2, 1.2.3, 1.3.1, 1.3.2, 1.4.1, 1.4.2, 1.4.3, 1.4.4 | 2.1.1, 2.1.2, 2.1.3, 2.2.1, 2.2.2, 2.3.1, 2.3.2, 2.3.3. 2.3.4, 2.3.5, 2.3.5, 2.4.1,2.4.2, 2.4.3, 2.5.1, 2.5.2, 2.5.3 |
| Effeithiolrwydd personol | 1.2.1, 1.2.2, 1.2.3, 1.3.1, 1.3.2, 1.4.1, 1.4.2, 1.4.3, 1.4.4 | 2.1.1, 2.1.2, 2.1.3, 2.2.1, 2.2.2, 2.3.1, 2.3.2, 2.3.3. 2.3.4, 2.3.5, 2.3.5, 2.4.1,2.4.2, 2.4.3, 2.5.1, 2.5.2, 2.5.3 |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

wjec
cbac

FOR CENTRES IN WALES:

www.wjec.co.uk
Facebook - WJEC_CBAC
Twitter - @WJEC_CBAC
Instagram - @WJECforstudents

Email: info@wjec.co.uk
Telephone: 029 2026 5000